



# Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

## DEDDF GAMBLO 2005

### DATGANIAD O EGWYDDORION GAMBLO

Cymeradwywyd: 22 Hydref 2024

I gychwyn ar: 31 Ionawr 2025

Gellir cael rhagor o wybodaeth oddi wrth:

Tîm Trwyddedu

Yr Economi a'r Amgylchedd

Canolfan Ddinesig

Pont-y-pŵl

NP4 6YB

Tel: 01633 647286

E-bost: [licensing@torfaen.gov.uk](mailto:licensing@torfaen.gov.uk)

Gwefan: [www.torfaen.gov.uk](http://www.torfaen.gov.uk)

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn Saesneg ac mewn ieithoedd neu fformatau eraill ar gais.

## Cynnwys

<b>1. Datganiad Polisi Trwyddedu .....</b>	<b>4</b>
1.1 Cyflwyniad .....	4
1.2 Proffil y Fwrdeistref.....	4
1.3 Amcanion .....	5
1.4 Swyddogaethau'r Awdurdod Trwyddedu.....	6
1.5 Ymgynghori.....	7
1.6 Awdurdodau Cyfrifol .....	8
1.7 Partïon a chanddynt Fuddiant .....	8
1.8 Cyfnewid Gwybodaeth .....	9
1.9 Gorfodaeth.....	9
1.10 Hawliau Sylfaenol .....	10
1.11 Integreiddio Strategaethau ac Osgoi Dyblygu .....	10
1.12 Llesiant cenedlaethau'r dyfodol .....	11
<b>2. Trwyddedau Mangre .....</b>	<b>11</b>
2.1 Egwyddorion Cyffredinol .....	11
2.2 Amgylchedd Trwydded Briodol.....	13
2.3 Mangre “parod ar gyfer gamblo”.....	14
2.4 Ystyriaethau Eraill.....	14
2.5 Dyblygu gyda Chyfundrefnau Rheoleiddio eraill:.....	15
2.6 Amcanion Trwyddedu:.....	16
2.7 Betwatch: .....	18
2.8 Amodau:.....	18
2.9 Goruchwylwyr Drysau:.....	20
2.10 Canolfannau Gamblo i Oedolion .....	21
2.11 Canolfannau Adloniant i Deuluoedd (Trwyddedig) .....	21
2.12 Casinos .....	22
2.13 Mangreoedd Bingo .....	22
2.14 Mangreoedd Betio .....	23
2.15 Traciau .....	24
2.16 Peiriannau Gamblo:.....	24
2.17 Peiriannau Betio: .....	25
2.18 Ceisiadau a Chynlluniau:.....	25
2.19 Ffeiriau Teithiol .....	25
2.20 Datganiadau Dros Dro.....	26
<b>3. Hawlenni/Hysbysiadau Defnydd Dros Dro ac Achlysurol .....</b>	<b>27</b>
3.1 Hawlenni Peiriannau Gamblo Ddidrwydded Canolfan Adloniant i'r Teulu	27

3.2 Hawlenni Peiriannau Gamblo Trwyddedig mewn Mangreoedd (Alcohol)...28	
3.3 Hawlenni Gwobrau Gamblo.....	29
3.4 Hawlenni Gamblo mewn Clwb a Pheiriannau mewn Clwb .....	30
3.5 Hysbysiadau Defnydd Dros Dro.....	31
3.6 Hysbysiadau Defnydd Achlysurol .....	32
<b>4. Loteriau Cymdeithasau Bach.....</b>	<b>33</b>
<b>5. Gwneud Penderfyniadau .....</b>	<b>34</b>
5.1 Gweinyddu, Ymarfer a Dirprwyo Swyddogaethau .....	34
5.2 Trefn Apeliadau .....	34
5.3 Rhoi Rhesymau dros Benderfyniadau .....	35
5.4 Gweithredu Penderfyniad y Llys Ynadon .....	35
5.5 Cwynion yn erbyn Mangreoedd Trwyddedig .....	35
5.6 Adolygiadau.....	35
<b>6. Amodau Trwyddedu a Chodau Ymarfer 2020 (LCCP) .....</b>	<b>37</b>
Asesiadau Risg ~ Gweithredwyr Gamblo yn y Fangre .....	38
<b>7. Gwybodaeth Bellach .....</b>	<b>41</b>
<b>Atodiad A Mynediad i Fangreoedd .....</b>	<b>42</b>
Casinos.....	41
Canolfan Gamblo i Oedolion .....	41
Siopau Betio .....	42
Traciau.....	41
Mangreoedd Bingo .....	42
Canolfan Adloniant i'r Teulu .....	42
<b>ATODIAD B – Cronfa Amodau Enghreifftiol Gorfodol, Rhagosodedig a Chyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen ar gyfer Trwyddedau Mangreoedd ar gyfer Gamblo .....</b>	<b>43</b>
1. Cyflwyniad.....	42
2. Amodau Gorfodol.....	44
3. Casinos wedi eu Trosi.....	43
4. Bingo .....	45
5. Traciau Betio.....	48
6. Betio (Arall) .....	49
7. Canolfannau Gamblo i Oedolion .....	51
8. Canolfannau Adloniant i Deuluoedd .....	51
9. Amodau Diofyn .....	52
10. Casinos wedi eu Trosi .....	53
11. Bingo .....	53

12. Traciau Betio.....	53
13. Betio (Arall) .....	53
14. Amodau Enghreifftiol .....	53
15. Oriau.....	54
16. CCTV.....	55
17. Goruchwyliaeth Drws.....	55
18. Plant a Phobl Ifanc.....	56
19. Mynedfeydd a Drysau.....	56
20. Lefelau Staffio .....	57
21. Cownteri Arianwyr a Hafanau Diogel .....	57
22. Adnabod Troseddwr neu Bobl Broblemus .....	57
23. Seddi .....	57
24. Larymau (Mangreoedd a Phersonol) .....	58
25. Toiledau.....	58
26. Cyfyngiadau ar Fwyd a Diodydd .....	58
27. Arwyddion, Deunydd Hyrwyddo a Hysbysiadau .....	58
28. Hyrwyddo Denu .....	59
29. Hyfforddiant Staff .....	59
30. Cofnodi Digwyddiadau ac Ymweliadau.....	59
31. Bagiau ac Eiddo Cwsmeriaid .....	60
32. Digartrefedd ac Yfed ar y Stryd .....	60
33. Protocolau Adrodd yr Heddlu ac Atal Troseddu .....	60
34. ATMs .....	61
35. Peiriannau Gamblo ac SSBTs.....	60
36. Lleoliadau Aml-lawr .....	61
37. Cynllun Betwatch .....	62
38. Dogfennau a Ddarperir i'r Awdurdod Trwyddedu .....	62
<b>Atodiad C Crynodeb o Ddarpariaethau Peiriannau fesul Mangre .....</b>	<b>63</b>
<b>Atodiad Ch Rhestr Dirprwyo Swyddogaethau a Phenderfyniadau</b>	
<b>Trwyddedu .....</b>	<b>65</b>

# 1. Datganiad Polisi Trwyddedu

## 1.1 Cyflwyniad

Mae Deddf Gamblo 2005 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor baratoi a chyhoeddi "Datganiad Polisi Trwyddedu" sy'n nodi'r egwyddorion y mae'r Cyngor yn bwriadu eu defnyddio wrth arfer ei swyddogaethau trwyddedu wrth ymdrin â cheisiadau am Drwyddedau Mangre, fel sy'n ofynnol gan y Ddeddf.

Daw'r Datganiad Polisi hwn i rym ar 31 Ionawr 2025. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu hwn yn diweddarau ac yn cyhoeddi Polisi Trwyddedu newydd pan fo angen ond, beth bynnag, o fewn 3 blynedd i ddyddiad y Polisi hwn, a bydd yn ymgynghori'n llawn â phartneriaid, cymdeithasau masnach a grwpiau preswylwyr fel y bo'n briodol ar yr adeg honno. Bydd unrhyw sylwadau a dderbynnir yn cael eu hystyried.

Fodd bynnag, lle mae angen diweddariadau oherwydd newidiadau mewn deddfwriaeth genedlaethol, canllawiau statudol neu fanylion cyswllt, mae'r cyngor yn cadw'r hawl i ddiwygio'r polisi hwn heb ymgynghori lle mae angen sicrhau bod y polisi'n adlewyrchu deddfwriaeth genedlaethol neu ganllawiau statudol.

Wrth gynhyrchu'r Datganiad Polisi terfynol, mae'r Cyngor yn datgan ei fod wedi ystyried amcanion trwyddedu Deddf Gamblo 2005, y Canllawiau i Awdurdodau Trwyddedu a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Gamblo, unrhyw godau ymarfer ac unrhyw ymatebion gan y rhai yr ymgynghorwyd â nhw ar y Datganiad Polisi. Bydd y Cyngor hefyd yn ystyried adroddiad Prif Swyddog Meddygol Cymru.

Mae gan y Cyngor rwymedigaeth gyfreithiol i gydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth sy'n hyrwyddo cydraddoldeb ac mae ganddo bolisi ar waith i hyrwyddo cydraddoldeb i bawb. Mae gan y Cyngor ei fframwaith cydraddoldeb ei hun sydd ar gael i'w archwilio ar ein gwefan. Bydd trwyddedu pobl ac eiddo o dan Ddeddf Gamblo 2005 yn hyrwyddo cydraddoldeb gwasanaeth a gorfodaeth i bob aelod o'r gymuned.

Mae Deddf Hawliau Dynol 1998 yn ymgorffori'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol ac yn ei gwneud yn anghyfreithlon i awdurdod lleol weithredu mewn ffordd sy'n anghydnaws â hawl o'r fath. Bydd y cyngor yn ystyried y Ddeddf Hawliau Dynol wrth ystyried unrhyw faterion trwyddedu, ac yn enwedig o ran y ffordd y mae ceisiadau'n cael eu hystyried a'r modd y cyflawnir gweithgareddau gorfodi.

Mae'r cyngor yn cydnabod y gall fod angen iddo wyro oddi wrth y Polisi hwn ac oddi wrth y canllawiau a gyhoeddwyd o dan y Ddeddf mewn amgylchiadau unigol ac eithriadol, a lle bo'r achos yn teilyngu penderfyniad o'r fath er budd hyrwyddo'r amcanion trwyddedu. Bydd unrhyw benderfyniad o'r fath yn cael ei wneud mewn ymgynghoriad â chynghorwyr cyfreithiol priodol yr Awdurdod Trwyddedu, a bydd y rhesymau dros wryiad o'r fath yn cael eu cofnodi'n llawn.

## 1.2 Proffil y Fwrdeistref

## Bwrdeistref Torfaen

Mae gan Dorfaen arwynebedd o 126km<sup>2</sup> a dyma'r 3edd fwrdeistref leiaf yng Nghymru. Mae ganddi boblogaeth o tua 93,000. Mae tri phrif anheddiad yn rhedeg o'r de i'r gogledd.


Mae llawer o rannau deheuol y fwrdeistref sirol bellach wedi'u trefoli o amgylch cytref Tref Newydd Cwmbrân sydd â'r boblogaeth fwyaf o tua 49,000. Canolfan Siopa Cwmbrân yw prif ardal fanwerthu Torfaen ac mae'n denu cwsmeriaid o ardal ehangach Gwent a choridor yr M4.

Hen dref ddiwydiannol Pont-y-pŵl gyda'i marchnad draddodiadol dan do ac awyr agored yw'r anheddiad mwyaf nesaf yng nghanol y fwrdeistref gyda phoblogaeth o tua 29,000.

Mae gan dref Safle Treftadaeth y Byd Blaenafon boblogaeth o tua 6,000 a hi sydd bellaf i'r gogledd yn y fwrdeistref. Mae Blaenafon yn enwog am amgueddfa lofaol y Pwll Mawr a'r gweithfeydd haearn gorau yn Ewrop o'r 18fed ganrif.

Hen dref ddiwydiannol Pont-y-pŵl gyda'i marchnad draddodiadol dan do ac awyr agored yw'r anheddiad mwyaf nesaf yng nghanol y fwrdeistref gyda phoblogaeth o tua 29,000.

Mae gan dref Safle Treftadaeth y Byd Blaenafon tua 6,000 o boblogaeth a hi sydd bellaf i'r gogledd yn y fwrdeistref. Mae Blaenafon yn enwog am amgueddfa lofaol y Pwll Mawr a'r gweithfeydd haearn gorau yn Ewrop o'r 18fed ganrif.



### 1.3 Amcanion

Wrth arfer y rhan fwyaf o'i swyddogaethau o dan DDeddf Gamblo 2005 mae'n rhaid i'r Cyngor, fel yr Awdurdod Trwyddedu, roi sylw i'r amcanion trwyddedu a ganlyn:

- **Atal gamblo rhag bod yn ffynhonnell trosedd neu anhrefn, rhag bod yn gysylltiedig â throsedd neu anhrefn neu gael ei ddefnyddio i gefnogi trosedd**
- **Sicrhau bod gamblo'n cael ei gynnal mewn ffordd deg ac agored**
- **Diogelu plant a phobl eraill sy'n agored i niwed rhag cael eu niweidio neu eu hecsbloetio gan y gamblo**

Dylid nodi bod y Comisiwn Gamblo wedi datgan: “Y gofyniad penodol mewn perthynas â phlant yw eu hamddiffyn rhag cael eu niweidio neu eu hecsbloetio gan y gamblo”.

Mae'r Cyngor yn ymwybodol, yn unol ag Adran 153, wrth wneud penderfyniadau am drwyddedau mangre a hysbysiadau defnydd dros dro y dylai anelu at ganiatáu defnyddio mangre ar gyfer gamblo i'r graddau y mae'n meddwl eu bod:

- **Yn unol ag unrhyw god ymarfer perthnasol a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Gamblo**
- **Yn unol ag unrhyw ganllawiau perthnasol a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Gamblo**
- **Yn rhesymol gyson â'r amcanion trwyddedu**
- **Yn unol â Datganiad Polisi Trwyddedu'r Cyngor**

#### **1.4 Swyddogaethau'r Awdurdod Trwyddedu**

Mae'n ofynnol i'r Cyngor o dan y Ddeddf:

- Bod yn gyfrifol am drwyddedu mangreoedd lle mae gweithgareddau gamblo i'w cynnal drwy roi Trwyddedau Mangre
- Cyhoeddi Datganiadau Dros Dro
- Rheoleiddio clybiau aelodau a sefydliadau lles glowyr sy'n dymuno ymgymryd â gweithgareddau gamblo penodol trwy roi Hawlenni Gamblo ar gyfer Clwb a/neu Hawlenni Peiriannau ar gyfer Clwb
- Rhoi Hawlenni Peiriannau ar gyfer Clwb i Glybiau Masnachol
- Rhoi hawlenni ar gyfer defnyddio rhai peiriannau gamblo cyfran is mewn canolfannau adloniant i'r teulu didrwydded
- Derbyn hysbysiad gan fangreoedd trwyddedig i gyflenwi alcohol (o dan Ddeddf Trwyddedu 2003) am ddefnyddio dau neu lai o beiriannau gamblo
- Rhoi Hawlenni Peiriannau Gamblo mewn Mangreoedd trwyddedig ar gyfer mangre sydd â thrwydded i werthu/cyflenwi alcohol i'w yfed yn y fangre drwyddedig, o dan Ddeddf Trwyddedu 2003, lle mae mwy na dau beiriant
- Cofrestru loteriau cymdeithasau bach o dan y trothwyon rhagnodedig
- Rhoi Hawlenni Gamblo ar gyfer Gwobrau
- Derbyn a chymeradwyo Hysbysiadau Defnydd Dros Dro
- Derbyn Hysbysiadau Defnydd Achlysurol
- Darparu gwybodaeth i'r Comisiwn Gamblo ynghylch manylion trwyddedau a roddwyd (gweler yr adran isod ar gyfnewid gwybodaeth)

- Cadw cofrestrau o'r hawlenni a'r trwyddedau a roddir o dan y swyddogaethau hyn

Dylid nodi nad yw awdurdodau trwyddedu lleol yn ymwneud â thrwyddedu gamblo o bell o gwbl, sy'n cael ei reoleiddio gan y Comisiwn Gamblo drwy Drwyddedau Gweithredwyr.

Mae'r Cyngor yn cydnabod mai dim ond un ffordd o hyrwyddo cyflawni'r tri amcan yw'r swyddogaeth drwyddedu ac felly ni ddylid ei gweld fel modd o ddatrys pob problem yn y gymuned. Bydd y Cyngor felly yn parhau i weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau cyfagos, Heddlu Gwent, Diogelwch Cymunedol, Iechyd y Cyhoedd, busnesau lleol, pobl leol a'r rhai sy'n ymwneud ag amddiffyn plant i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu fel yr amlinellwyd. Yn ogystal, mae'r Cyngor yn cydnabod ei ddyletswydd o dan Adran 17 o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998, o ran atal trosedd ac anhrefn.

## 1.5 Ymgynghori

Mae'r Cyngor wedi ymgynghori'n eang ar y Datganiad hwn cyn ei gwblhau a'i gyhoeddi. Darperir rhestr o'r bobl yr ymgynghorwyd â hwy isod, yn unol â'r Ddeddf a Chanllawiau'r Comisiwn Gamblo. Mae rhagor o fanylion, ynghyd â rhestr o'r sylwadau a wnaed ac ystyriaeth y Cyngor o'r sylwadau hynny ar gael ar gais.

Mae'r Cyngor wedi ymgynghori'n eang ar y Datganiad hwn cyn ei gwblhau a'i gyhoeddi. Darperir rhestr o'r bobl yr ymgynghorwyd â hwy isod, yn unol â'r Ddeddf a Chanllawiau'r Comisiwn Gamblo. Mae rhagor o fanylion, ynghyd â rhestr o'r sylwadau a wnaed ac ystyriaeth y Cyngor o'r sylwadau hynny ar gael ar gais.

- Prif Swyddog yr Heddlu
- Yr Awdurdod Tân
- Cynrychiolwyr deiliaid trwydded amrywiol ar gyfer mangre yn y Fwrdeistref Sirol y bydd y Polisi hwn yn effeithio arnynt
- Cyrff sy'n cynrychioli busnesau a thrigolion yn y Fwrdeistref Sirol
- Adrannau (gan gynnwys Awdurdodau Cyfrifol) o fewn y Cyngor sydd â diddordeb mewn trwyddedu gamblo
- Bwrdd Diogelu Oedolion Gwent gyfan (GWASB)
- Cynghorau Cymuned a Thref
- Sefydliadau eraill yr ymddengys eu bod yn cael eu heffeithio gan faterion trwyddedu a gwmpesir gan y Datganiad hwn
- Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi
- Bwrdd Iechyd Lleol

Cynhaliwyd ymgynghoriad rhwng 03 Gorffennaf 2024 a 09 Medi 2024 a, chyn belled ag y bo'n ymarferol, dilynodd y Cyngor yr Egwyddorion Ymgynghori a gyhoeddwyd gan y Llywodraeth sydd ar gael yn

<https://www.gov.uk/government/publications/consultation-principles-guidance>



Cymeradwywyd y polisi hwn mewn cyfarfod o'r Cyngor Llawn ar 22 Hydref 2024 ac fe'i cyhoeddwyd ar 16 Rhagfyr 2024, yn ogystal â bod ar gael yn [www.torfaen.gov.uk](http://www.torfaen.gov.uk)

## 1.6 Awdurdodau Cyfrifol

Wrth arfer pwerau'r Cyngor o dan Adran 157(h) o'r Ddeddf i ddynodi, yn ysgrifenedig, gorff sy'n gymwys i gynghori'r Cyngor ynghylch amddiffyn plant rhag niwed, mae'r egwyddorion a ganlyn wedi'u cymhwyso:

- Yr angen i'r corff fod yn gyfrifol am faes sy'n cwmpasu holl ardal y Cyngor
- Yr angen i'r corff gynnwys cynrychiolwyr uwch a chyfrifol o gyrrff cyhoeddus priodol yn ardal y fwrdeistref sirol, sydd â'r cyfrifoldeb pennaf am amddiffyn plant rhag niwed

Yn unol â Chanllawiau'r Comisiwn Gamblo mae'r Cyngor hwn yn dynodi rheolwr gwasanaethau plant Cyngor Torfaen at y diben hwn. Mae manylion y cyrrff a nodir o dan y Ddeddf sydd i'w trin fel Awdurdodau Cyfrifol ar gael ar wefan y Cyngor.

## 1.7 Partïon a chanddynt Fuddiant

Gall Partïon a chanddynt Fuddiant wneud sylwadau am geisiadau am drwydded, neu wneud cais am adolygiad o drwydded bresennol yn seiliedig ar y tri amcan trwyddedu a nodir ym mharagraff 1.3 o'r Datganiad Polisi hwn. Mae Parti a chanddynt Fuddiant yn rhywun sydd:

- (a) yn byw'n ddigon agos i'r fangre i'r gweithgareddau awdurdodedig effeithio arnynt
- (b) Yn meddu ar fuddiannau busnes a allai gael eu heffeithio gan y gweithgareddau awdurdodedig gan gynnwys y Bwrdd Iechyd Lleol; neu
- (c) Yn cynrychioli pobl yn y naill neu'r llall o'r ddau grŵp uchod.

Yr egwyddorion y bydd y Cyngor yn eu defnyddio i benderfynu a yw person yn Barti a chanddynt Fuddiant yw:

Bydd pob achos yn cael ei benderfynu yn ôl ei rinweddau. Ni fydd y Cyngor hwn yn defnyddio rheol anhyblyg wrth wneud penderfyniadau. Bydd yn ystyried yr enghreifftiau o ystyriaethau a ddarperir yng Nghanllawiau'r Comisiwn Gamblo ar gyfer awdurdodau lleol. Bydd hefyd yn ystyried Canllawiau'r Comisiwn Gamblo y dylid rhoi'r dehongliad ehangaf posibl i "fuddiannau busnes" a chynnwys partneriaethau, elusennau, grwpiau ffydd, practisau meddygol a'r Bwrdd Iechyd Lleol.

Gall Partïon a chanddynt Fuddiant fod yn bobl sy'n cael eu hethol yn ddemocrataidd, fel Cynghorwyr ac Aelodau Seneddol. Ni fydd angen unrhyw dystiolaeth benodol o gais i gynrychioli person a chanddynt fuddiant cyn belled â bod y Cynghorydd/Aelod Seneddol yn cynrychioli'r ward sy'n debygol o gael ei heffeithio. Yn yr un modd, bydd Cynghorau Tref a Chymuned sy'n debygol o

gael eu heffeithio yn cael eu hystyried fel partïon a chanddynt fuddiant. Ar wahân i'r rhain, fodd bynnag, bydd y Cyngor hwn yn gyffredinol angen tystiolaeth ysgrifenedig bod person, corff (e.e. eiriolwr/perthynas) yn 'cynrychioli' rhywun sydd naill ai'n byw'n ddigon agos i'r fangre i fod yn debygol o gael ei effeithio gan y gweithgareddau awdurdodedig a/neu fuddiannau busnes a allai gael eu heffeithio gan y gweithgareddau awdurdodedig. Mae gohebiaeth gan un o'r personau hyn yn gofyn am y gynrychiolaeth yn ddigonol.

Os yw unigolion yn dymuno mynd at Gynghorwyr i ofyn iddynt gynrychioli eu barn, yna dylid bod yn ofalus nad yw'r Cynghorwyr yn rhan o'r Is-bwyllgor Trwyddedu a Gamblo sy'n delio â'r cais am drwydded neu fod ganddynt mewn unrhyw ffordd arall fuddiant personol a fyddai'n eu hatal rhag cymryd rhan mewn gwrandawriad. Os oes unrhyw amheuan, cysylltwch â'r Adran Drwyddedu. Dylid nodi, yn wahanol i'r Ddeddf Trwyddedu, nad yw'r Ddeddf Gamblo yn cynnwys atal niwsans cyhoeddus fel amcan trwyddedu penodol. Fodd bynnag, mae deddfwriaeth berthnasol arall, sy'n ymdrin â niwsans cyhoeddus.

## **1.8 Cyfnewid Gwybodaeth**

Yr egwyddor y bydd y Cyngor yn ei chymhwyso mewn perthynas â chyfnewid gwybodaeth rhyngddo a'r Comisiwn Gamblo a'r cyrff hynny a restrir yn Atodlen 6 y Ddeddf yw y bydd yn gweithredu yn unol â darpariaethau Deddf Gamblo 2005 sy'n cynnwys y ddarpariaeth na fydd y ddeddfwriaeth diogelu data, fel y'i diffinnir yn adran 3 o Ddeddf Diogelu Data 2018, yn cael ei thorri. Bydd y Cyngor hefyd yn ystyried unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan y Comisiwn Gamblo i Awdurdodau Lleol ar y mater hwn, yn ogystal ag unrhyw reoliadau perthnasol a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan y pwerau a ddarperir yn Neddf Gamblo 2005.

## **1.9 Gorfodaeth**

Egwyddorion y Cyngor yw y bydd yn cael ei arwain gan Ganllawiau'r Comisiwn Gamblo i awdurdodau lleol, y Cod Rheoleiddwyr a pholisi gorfodi'r cyngor. Bydd yn ymdrechu i fod yn:

- Cymesur: dim ond pan fo angen y dylai rheoleiddwyr ymyrryd, dylai atebion fod yn briodol i'r risg a achosir, a dylid nodi a lleihau costau;
- Atebol: rhaid i reoleiddwyr allu cyfiawnhau penderfyniadau, a bod yn destun craffu cyhoeddus
- Cyson: rhaid i reolau a safonau fod yn gydgyssylltiedig a'u gweithredu'n deg
- Tryloyw: dylai rheoleiddwyr fod yn agored, cadw'r rheoliadau'n syml a hawdd eu defnyddio; a
- Wedi'i dargedu: dylai rheoleiddwyr ganolbwyntio ar y broblem, a lleihau sgîl-effeithiau

Yn unol â Chanllawiau'r Comisiwn Gamblo i Awdurdodau Trwyddedu, bydd y Cyngor yn ymdrechu i osgoi dyblygu â chylfundrefnau rheoleiddio eraill cyn belled ag y bo modd.

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu a gweithredu rhaglen arolygu ar sail risg, yn seiliedig ar:

- Yr amcanion trwyddedu
- Codau ymarfer perthnasol
- Arweiniad a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Gamblo
- Yr egwyddorion a nodir yn y Datganiad Polisi Trwyddedu hwn.
- Polisi gorfodi'r cyngor  
(<https://www.torfaen.gov.uk/lgs/en/Food,HealthandSafetyEnforcement/Enforcement-Policy/Enforcement-Policy.aspx>)

Prif rôl gorfodi a chydymffurfedd y Cyngor hwn o ran Deddf Gamblo 2005 yw sicrhau cydymffurfedd â'r Trwyddedau Mangre a chaniatâd arall y mae'n eu hawdurdodi. Y Comisiwn Gamblo yw'r corff gorfodi ar gyfer y Trwyddedau Gweithredwyr a Phersonol. Mae'r Cyngor yn delio â phryderon ynghylch gweithgynhyrchu, cyflenwi neu atgyweirio peiriannau gamblo ond dylid hysbysu'r Comisiwn Gamblo amdanynt.

Bydd y Cyngor yn ystyried canllawiau'r Comisiwn Gamblo sy'n ymwneud â phryniant prawf wrth ystyried gwneud pryniannau prawf mewn mangreoedd

Bydd y cyngor hefyd yn dilyn ei bolisïau a'i weithdrefnau ei hun ynghylch defnyddio prynwyr prawf dan oed. Mae'r Cyngor hefyd yn hysbysu ei hun am ddatblygiadau o ran gwaith y Swyddfa Gwell Rheoleiddio wrth ystyried swyddogaethau rheoleiddio awdurdodau lleol.

### **1.10 Hawliau Sylfaenol**

O dan delerau'r Ddeddf gall unrhyw unigolyn/cwmni wneud cais am amrywiaeth o ganiatadau a chael eu ceisiadau wedi'u hystyried yn ôl eu teilyngdod unigol. Yn yr un modd, mae gan unrhyw Barti a chanddynt Fuddiant neu Awdurdod Cyfrifol yr hawl i wneud sylwadau perthnasol ar gais neu i ofyn am adolygiad o drwydded neu dystysgrif lle mae darpariaeth wedi'i gwneud iddynt wneud hynny yn y Ddeddf. Mae gan ymgeiswyr a'r rhai sy'n cyflwyno sylwadau perthnasol mewn perthynas â cheisiadau i'r Cyngor hawl i apelio i'r Llys Ynadon yn erbyn penderfyniadau'r Cyngor.

### **1.11 Integreiddio Strategaethau ac Osgoi Dyblygu**

Trwy ymgynghori'n eang cyn cyhoeddi'r Datganiad Polisi hwn, bydd y Cyngor yn rhoi ystyriaeth lawn i bolisïau lleol sy'n ymwneud ag atal trosedd, diwylliant, trafnidiaeth, cynllunio a thwristiaeth fel rhan o strategaeth integredig ar gyfer y Cyngor, yr Heddlu ac asiantaethau eraill. Mae'n bosibl nad yw llawer o'r strategaethau hyn yn uniongyrchol gysylltiedig â hyrwyddo'r tri amcan trwyddedu, ond gallent effeithio'n anuniongyrchol arnynt.

Wrth ystyried unrhyw gais, bydd y Cyngor yn osgoi dyblygu gyda chyfundrefnau rheoleiddio eraill cyn belled ag y bo modd. Felly, ni fydd y Cyngor yn gosod amodau ar drwydded oni bai eu bod yn cael eu hystyried yn angenrheidiol, yn

rhesymol ac yn gymesur â'r defnydd o fangre ar gyfer gamblo sy'n gyson â'r amcanion trwyddedu.

### **1.12 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i bob Awdurdod Lleol yng Nghymru feddwl am effaith hirdymor eu penderfyniadau, gweithio'n well gyda phobl, cymunedau a'i gilydd, ac atal problemau parhaus megis tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid hinsawdd. Mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer gwneud penderfyniadau gwell drwy sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn gwneud y canlynol:

- Ystyried y tymor hir
- Helpu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu
- Cymryd agwedd integredig
- Cymryd agwedd gydweithredol, ac
- Ystyried a chynnwys pobl o bob oed ac amrywiaeth

Mae Cynllun Sirol Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn amlygu uchelgeisiau'r Cyngor ac yn nodi gweithgareddau cyflawni allweddol a fydd yn helpu timau a gwasanaethau i gyflawni'r uchelgeisiau hynny. Mae wedi'i ysbrydoli gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'i nod yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Torfaen. Gellir dod o hyd i gopi o'r cynllun yn:

[Torfaen Y Dyfodol: Cynllun Sirol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen](#)

O dan Ddeddf Trosedd ac Anrhefn 1998 rhaid i awdurdodau lleol roi sylw i effaith debygol arfer eu swyddogaethau ar drosedd ac anrhefn yn yr ardal a gwneud popeth o fewn eu gallu i atal hynny. Bydd y Cyngor yn rhoi sylw arbennig i effaith debygol trwyddedu ar drosedd ac anrhefn gysylltiedig yn y Fwrdeistref Sirol, yn enwedig wrth ystyried lleoliad, effaith, gweithrediad a rheolaeth pob cais arfaethedig am drwydded/hawlen, adnewyddiadau ac amrywiadau mewn amodau.

## **2. Trwyddedau Mangre**

### **2.1 Egwyddorion Cyffredinol**

Mae Trwyddedau Mangre yn amodol ar y gofynion a nodir yn Neddf Gamblo 2005 a rheoliadau, yn ogystal ag amodau gorfodol a rhagosodedig penodol, y manylir arnynt mewn rheoliadau a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Gall awdurdodau trwyddedu eithrio amodau rhagosodedig a hefyd atodi eraill, lle credir ei fod yn briodol.

Mae'r Cyngor yn ymwybodol, wrth wneud penderfyniadau am Drwyddedau mangre, y dylai anelu at ganiatáu defnyddio safle ar gyfer gamblo i'r graddau y mae'n meddwl ei fod:

- Yn unol ag unrhyw god ymarfer perthnasol a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Gamblo
- Yn unol ag unrhyw ganllawiau perthnasol a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Gamblo
- Yn rhesymol gyson â'r amcanion trwyddedu; ac
- Yn unol â'r Datganiad Polisi hwn

Gall y Cyngor hwn hefyd ystyried mesurau i fodloni'r amcanion trwyddedu wrth wneud penderfyniadau o'r fath, er enghraifft:

- Cynlluniau prawf oedran
- CCTV
- Goruchwyllo mynedfeydd/mannau peiriannau
- Gwahanu ardaloedd yn ffisegol
- Safle mynediad
- Hysbysiadau/arwyddion
- Oriau agor penodol
- Cynlluniau hunan-wahardd
- Darparu taflenni gwybodaeth/rhifau llinell gymorth ar gyfer sefydliadau fel GamCare
- Mesurau/hyfforddiant i staff ar sut i ddelio â phlant yn y fangre, er enghraifft, amheuaeth o driwantiaeth o'r ysgol

Nid yw'r rhestr hon yn orfodol, nac yn hollgynhwysfawr, ac mae'n dangos mesurau enghreifftiol yn unig.

Sylweddolir, yn unol â Chanllawiau'r Comisiwn Gamblo ar gyfer awdurdodau lleol, "nad yw gwrthwynebiadau moesol i gamblo yn rheswm dilys dros wrthod ceisiadau am Drwyddedau mangre" a hefyd nad yw galw heb ei fodloni yn faen prawf ar gyfer awdurdod trwyddedu. Mae'r Amodau Trwydded a'r Cod Ymarfer (LCCP) a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Gamblo yn gosod y cyfrifoldeb ar fangre i gwblhau asesiad risg. Bydd y Cyngor yn ystyried y codau hyn wrth ystyried ceisiadau. Ymdrinnir â hyn yn fanwl yn Adran 6 y datganiad hwn.

### ***Diffiniad o "Fangre":***

Diffinnir mangre yn y Ddeddf fel "unrhyw le". Mae adran 152 felly yn atal mwy nag un drwydded mangre rhag bod yn gymwys i unrhyw le. Gallai adeilad unigol fod yn destun mwy nag un drwydded mangre, ar yr amod eu bod ar gyfer gwahanol rannau o'r adeilad a bod modd ystyried yn rhesymol fod rhannau gwahanol o'r adeilad yn fangre gwahanol. Mabwysiadwyd y dull hwn i ganiatáu i fangreoedd unedau mawr, lluosog megis parc pleser, pier, trac neu ganolfan siopa gael Trwyddedau Mangre ar wahân, lle mae mesurau diogelu priodol ar waith. Fodd bynnag, dylai awdurdodau trwyddedu roi sylw arbennig os oes materion ynghylch isrannu un adeilad neu lain a dylent sicrhau y cedwir at amodau gorfodol yn ymwneud â mynediad rhwng mangreoedd.

Mae'r Comisiwn Gamblo yn datgan yn ei Ganllawiau i Awdurdodau Trwyddedu: "Yn y rhan fwyaf o achosion y disgwyl yw y bydd un adeilad/llain yn destun cais am drwydded. Ond, nid yw hynny'n golygu na all un llain adeiladu fod yn destun trwydded mangre ar wahân, e.e. yr islawr a'r llawr gwaelod, os ydynt wedi'u ffurfweddu'n dderbyniol. Bydd p'un a ellir ystyried yn briodol fod rhannau gwahanol o adeilad yn fanger ar wahân yn dibynnu ar yr amgylchiadau. Bydd lleoliad y fangre yn amlwg yn ystyriaeth bwysig ac mae addasrwydd y rhaniad yn debygol o fod yn fater i'w drafod rhwng y gweithredwr a'r swyddog trwyddedu.

Fodd bynnag, nid yw'r Comisiwn o'r farn y gall ardaloedd o adeilad sydd wedi'u gwahanu'n artiffisial neu dros dro, er enghraifft, gan raffau neu barwydydd symudol, gael eu hystyried yn briodol fel mangreoedd gwahanol."

Mae'r Cyngor yn cymryd sylw arbennig o Ganllawiau'r Comisiwn Gamblo ar gyfer awdurdodau lleol sy'n datgan y dylai awdurdodau trwyddedu gymryd gofal arbennig wrth ystyried ceisiadau am drwyddedau lluosog ar gyfer adeilad a'r rhai sy'n ymwneud â rhan ar wahân o adeilad a ddefnyddir at ddibenion eraill (nad ydynt yn ymwneud â gamblo). Yn benodol, dylent fod yn ymwybodol o'r canlynol

- Mae'r trydydd amcan trwyddedu yn ceisio amddiffyn plant rhag cael eu niweidio gan y gamblo. Yn ymarferol mae hynny'n golygu nid yn unig eu hatal rhag cymryd rhan mewn gamblo, ond hefyd eu hatal rhag bod yn agos at gamblo. Felly, dylai mangreoedd gael eu cyflunio fel nad yw plant yn cael eu gwahodd i gymryd rhan mewn gamblo, i gael mynediad damweiniol iddo nac i arsylwi'n agos arno lle cânt eu gwahardd rhag cymryd rhan
- Dylai mynedfeydd ac allanfeydd o rannau o adeilad sy'n dod o dan un neu fwy o drwyddedau mangre fod ar wahân ac yn adnabyddadwy fel nad yw gwahaniad mangreoedd gwahanol yn cael ei beryglu ac nad yw pobl yn "drifftio" i ardal gamblo. Yn y cyd-destun hwn, dylai fod yn bosibl cael mynediad i'r fangre fel arfer heb fynd drwy fangre drwyddedig arall neu fangre sydd heb hawlen
- Dylai cwsmeriaid allu cymryd rhan yn y gweithgaredd a enwir ar y drwydded mangre

Mae'r Canllawiau hefyd yn rhoi rhestr o ffactorau y dylai'r awdurdod trwyddedu fod yn ymwybodol ohonynt, a all gynnwys:

- A oes gan y fangre gofrestrriad ar wahân ar gyfer ardrethi busnes?
- A yw eiddo cyfagos y Fangre yn eiddo i'r un person neu rywun arall?
- A ellir cael mynediad i bob un o'r adeiladau o'r stryd neu o dramwyfa gyhoeddus?
- A ellir cael mynediad i'r fangre o unrhyw fangre gamblo arall yn unig?

## **2.2 Amgylchedd Trwydded Briodol**

Mae'r Canllawiau i Awdurdodau Lleol ac Amodau a Chodau Ymarfer y Drwydded (LCCP) yn nodi materion ychwanegol y dylai'r Cyngor eu hystyried wrth ystyried ceisiadau am drwyddedau am drwyddedau mangre.

Mae'r Canllawiau'n rhagnodi cyfyngiadau ar weithgareddau gamblo ar fangreoedd, a elwid gynt yn weithgarwch gamblo sylfaenol. Bydd y cyngor yn ystyried unrhyw gais yn seiliedig ar y darpariaethau yn y codau a'r canllawiau hyn.

Lle darperir cyfleusterau gamblo mewn eiddo fel gweithgaredd atodol at brif ddiben y fangre; e.e. ardaloedd gwasanaeth traffordd a chanolfannau siopa, bydd y cyngor yn disgwyl i'r ardal gamblo gael ei ddiffinio'n glir i sicrhau bod cwsmeriaid yn gwbl ymwybodol eu bod yn gwneud dewis i fynd i mewn i'r mangreoedd gamblo, a bod yr eiddo'n cael ei oruchwylio'n ddigonol bob amser.

Bydd y Cyngor yn ystyried y rhain ac unrhyw ffactorau perthnasol eraill wrth wneud ei benderfyniad, yn dibynnu ar holl amgylchiadau'r achos.

Mae Canllawiau'r Comisiwn Gamblo ar gyfer darpariaethau mynediad perthnasol ar gyfer pob math o eiddo wedi'u hatgynhyrchu yn Atodiad A.

### **2.3 Mangre “parod ar gyfer gamblo”**

Mae'r Canllawiau'n nodi y dylid rhoi trwydded i ddefnyddio mangre ar gyfer gamblo dim ond mewn perthynas â mangreoedd y gall yr awdurdod trwyddedu fod yn fodlon eu bod yn mynd i fod yn barod i'w defnyddio ar gyfer gamblo yn y dyfodol gweddol agos, yn gyson â graddfa'r adeilad neu'r addasiadau sy'n ofynnol cyn dechrau defnyddio'r fangre.

Os nad yw'r gwaith o adeiladu mangre wedi'i gwblhau eto, neu os oes angen ei newid, neu os nad oes gan yr ymgeisydd hawl i'w feddiannu eto, yna dylid gwneud cais am ddatganiad dros dro yn lle hynny.

Wrth benderfynu a ellir rhoi trwydded mangre lle mae gwaith adeiladu neu addasu eiddo heb ei wneud, bydd y Cyngor yn penderfynu ar geisiadau yn ôl eu teilyngdod, gan ddefnyddio proses ystyried dau gam:

- Yn gyntaf, a ddylid caniatáu i'r fangre gael ei ddefnyddio ar gyfer gamblo
- Yn ail, a ellir gosod amodau priodol i ddarparu ar gyfer y sefyllfa nad yw'r fangre eto yn y cyflwr y dylent fod ynddo cyn i gamblo ddigwydd.

Dylai ymgeiswyr nodi bod gan yr awdurdod hwn yr hawl i benderfynu ei bod yn briodol rhoi trwydded yn ddarostyngedig i amodau, ond nid oes rheidrwydd arno i roi trwydded o'r fath.

Ceir enghreifftiau manylach o'r amgylchiadau lle gellir caniatáu trwydded o'r fath yn y Canllawiau.

### **2.4 Ystyriaethau Eraill**

### **Lleoliad:**

Mae'r Cyngor yn ymwybodol na ellir ystyried materion galw o ran lleoliad eiddo ond bod ystyriaethau o ran yr amcanion trwyddedu yn berthnasol i'w benderfyniadau. Yn unol â Chanllawiau'r Comisiwn Gamblo ar gyfer awdurdodau lleol, bydd y Cyngor yn rhoi sylw arbennig i amddiffyn plant a phobl agored i niwed rhag cael eu niweidio neu eu hecsbloetio gan y gamblo, yn ogystal â materion trosedd ac anhrefn. Penderfynir ar bob cais yn ôl ei rinweddau, gyda'r cyfrifoldeb ar yr ymgeisydd i ddangos sut y gellir goresgyn pryderon posibl.

### **Cynllunio**

Mae Canllawiau'r Comisiwn Gamblo i Awdurdodau Trwyddedu yn nodi:

- Wrth benderfynu ar geisiadau mae gan yr awdurdod trwyddedu ddyletswydd i ystyried yr holl faterion perthnasol ac i beidio ag ystyried unrhyw faterion amherthnasol, h.y. y rhai nad ydynt yn ymwneud â gamblo a'r amcanion trwyddedu. Un enghraifft o fater amherthnasol fyddai'r tebygolrwydd y byddai'r ymgeisydd yn cael cydsyniad cynllunio neu gymeradwyaeth rheoliadau adeiladu ar gyfer ei gynnig.

Ni fydd y Cyngor yn ystyried materion amherthnasol fel y nodir yn y canllawiau uchod. Yn ogystal, mae'r Cyngor yn nodi'r dyfyniad canlynol o'r Canllawiau:

- Wrth ymdrin â chais am drwydded mangre ar gyfer adeiladau gorffenedig, ni ddylai'r awdurdod trwyddedu ystyried a oes gan yr adeiladau hynny neu a ydynt yn cydymffurfio â'r cydsyniad cynllunio neu adeiladu angenrheidiol. Dylid ymdrin â'r materion hynny o dan bwerau rheoli cynllunio a rheoliadau adeiladu perthnasol, ac ni ddylent fod yn rhan o'r ystyriaeth ar gyfer y drwydded mangre. Mae adran 210 o Ddeddf 2005 yn atal awdurdodau trwyddedu rhag cymryd i ystyriaeth y tebygolrwydd y bydd y cynnig gan yr ymgeisydd yn cael cydsyniad cynllunio neu adeiladu wrth ystyried cais am drwydded mangre. Yn yr un modd, nid yw rhoi trwydded mangreoedd gamblo yn rhagfarnu nac yn atal unrhyw gamau gweithredu a allai fod yn briodol o dan y gyfraith sy'n ymwneud â chynllunio neu adeiladu.

### **2.5 Dyblygu gyda Chyfundrefnau Rheoleiddio eraill:**

Mae'r Cyngor yn ceisio osgoi unrhyw ddyblygu gyda systemau statudol/rheoleiddio eraill lle bo modd, gan gynnwys cynllunio. Ni fydd y Cyngor yn ystyried a yw cais am drwydded yn debygol o gael cydsyniad cynllunio neu gymeradwyaeth rheoliadau adeiladu wrth ei ystyried. Serch hynny, bydd yn gwrando ar, ac yn ystyried yn ofalus, unrhyw bryderon ynghylch amodau, na all trwyddedeion eu bodloni oherwydd cyfyngiadau cynllunio, pe bai sefyllfa o'r fath yn codi.

Wrth ymdrin â chais am drwydded mangre ar gyfer adeiladau gorffenedig, ni fydd y Cyngor yn ystyried a oes rhaid i'r adeiladau hynny gydymffurfio â'r cydsyniad cynllunio neu adeiladu angenrheidiol. Ni fydd risgiau tân neu iechyd



a diogelwch yn cael eu hystyried, gan fod y materion hyn yn cael eu trin o dan reolaeth gynllunio berthnasol, adeiladau a rheoliadau eraill ac ni ddylent fod yn rhan o'r ystyriaeth ar gyfer y drwydded mangre.

## **2.6 Amcanion Trwyddedu:**

Rhaid i drwyddedau mangre a roddir fod yn rhesymol gyson â'r amcanion trwyddedu. O ran yr amcanion hyn, mae'r Cyngor wedi ystyried Canllawiau'r Comisiwn Gamblo i awdurdodau trwyddedu a gwneir rhai sylwadau isod.

### ***Atal gamblo rhag bod yn ffynhonnell trosedd neu anhrefn, rhag bod yn gysylltiedig â throsedd neu anhrefn neu gael ei ddefnyddio i gefnogi trosedd:***

Mae'r Cyngor yn ymwybodol bod y Comisiwn Gamblo yn chwarae rhan flaenllaw wrth atal gamblo rhag bod yn ffynhonnell trosedd. Fodd bynnag, mae Canllawiau'r Comisiwn Gamblo yn rhagweld y dylai awdurdodau trwyddedu roi sylw i leoliad arfaethedig mangreoedd gamblo o ran yr amcan trwyddedu hwn. Felly, lle mae ardal yn hysbys bod lefelau uchel o droseddau trefniadol, bydd y Cyngor yn ystyried yn ofalus a yw mangreoedd gamblo yn addas i'w lleoli yno ac a allai amodau fod yn addas megis darparu goruchwylwyr drysau. Mae'r Cyngor yn ymwybodol o'r gwahaniaeth rhwng anhrefn a niwsans a bydd yn ystyried ffactorau megis a oedd angen cymorth yr heddlu a pha mor fygythiol oedd yr ymddygiad i'r rhai a allai ei weld, er mwyn gwneud y gwahaniaeth hwnnw. Ni ellir mynd i'r afael â materion niwsans trwy ddarpariaethau'r DDeddf Gamblo.

### ***Sicrhau bod gamblo'n cael ei gynnal mewn ffordd deg ac agored:***

Mae'r Cyngor wedi nodi bod y Comisiwn Gamblo yn datgan nad yw'n disgwyl i awdurdodau trwyddedu ymwneud â sicrhau bod gamblo'n cael ei gynnal mewn ffordd deg ac agored, gan y bydd hyn yn cael sylw drwy drwyddedau gweithredu a phersonol. Fodd bynnag, mae mwy o rôl o ran traciau, a esbonnir yn fanylach yn yr adran "traciau".

### ***Diogelu plant a phobl agored i niwed eraill rhag cael eu niweidio neu eu hecsbloetio gan y gamblo:***

Mae'r Cyngor wedi nodi bod Canllawiau'r Comisiwn Gamblo ar gyfer awdurdodau lleol yn datgan bod yr amcan hwn yn golygu atal plant rhag cymryd rhan mewn gamblo (yn ogystal â chyfyngu ar hysbysebu fel nad yw cynhyrchion gamblo wedi'u hanelu at blant neu'n arbennig o ddeniadol iddynt). Bydd y Cyngor, felly, yn ystyried, fel yr awgrymir yn y Canllaw hwn, a oes angen mesurau penodol mewn eiddo penodol, mewn perthynas â'r amcan trwyddedu hwn. Gall mesurau priodol gynnwys goruchwyllo mynedfeydd/peiriannau, gwahanu ardaloedd, ac ati.

Mae'r Cyngor hefyd yn ymwybodol o'r Codau Ymarfer, y mae'r Comisiwn Gamblo yn eu cyhoeddi mewn perthynas â'r amcan trwyddedu hwn, mewn perthynas ag eiddo penodol.

O ran y term “personau agored i niwed” nodir nad yw'r Comisiwn Gamblo yn ceisio cynnig diffiniad ond mae'n datgan “at ddibenion rheoleiddio bydd yn cymryd yn ganiataol bod y grŵp hwn yn cynnwys pobl sy'n gamblo mwy nag y dymunant; pobl sy'n gamblo y tu hwnt i'w hincwm; a phobl nad ydynt efallai'n gallu gwneud penderfyniadau gwybodus neu gytbwys am gamblo oherwydd nam meddyliol, alcohol neu gyffuriau”. Bydd y Cyngor yn ystyried yr amcan trwyddedu hwn fesul achos.

Mae Canllawiau'r Comisiwn Gamblo i Awdurdodau Lleol yn nodi'r ystyriaethau y mae'n rhaid i weithredwr eu gwneud er mwyn amddiffyn plant a phobl ifanc rhag cael mynediad i fangreodd gamblo.

Mae'r Amodau Trwydded a Chodau Ymarfer (LCCP) yn rhagnodi sut mae'n rhaid i weithredwyr atal plant rhag defnyddio gamblo â chyfyngiad oedran neu weithgareddau gamblo, yn enwedig lle mae peiriannau gamblo wedi'u trwyddedu.

Yn benodol, rhaid i weithredwyr sicrhau'r canlynol:

- bod yr holl staff wedi'u hyfforddi
- bod pob cwsmer yn cael ei oruchwylio pan fyddant mewn mangre gamblo
- rhaid cael gweithdrefnau ar gyfer nodi cwsmeriaid sydd mewn perygl o niwed cysylltiedig â gamblo a hefyd ble i gyfeirio pobl am gymorth (mae hyfforddiant ar gael o nifer o ffynonellau gan gynnwys yr Addiction Recovery Agency (ARA) a GambleAware). Yn ogystal â darparu cymorth gamblo cyfrinachol am ddim ar draws Cymru. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan Melo Cymru: [Addiction Recovery Agency \(ARA\)](#)
- Yn ddiweddar cyhoeddodd GambleAware [fapiau rhyngweithiol](#) a fydd yn cael eu defnyddio gan awdurdodau lleol. Mae'r mapiau'n dangos pa mor gyffredin yw gamblo problemus ym mhob ardal yn ogystal â'r defnydd o driniaeth a niwed gamblo, a'r galw a adroddwyd amdanynt. Argymhellir hefyd bod gweithredwyr yn gyfarwydd â mapiau o'r fath.
- Mae nifer o ffynonellau y gellir eu defnyddio i gyfeirio pobl am gymorth gan gynnwys [GamCare](#), a hefyd yn ogystal â darparu hyfforddiant, mae , [ARA yn darparu Triniaeth Caethiwed i Gamblo am ddim](#)

Bydd y Cyngor yn disgwyl i bob gweithredwr fod â pholisïau a gweithdrefnau yn eu lle fel sy'n ofynnol gan godau LCCP ar gyfrifoldeb cymdeithasol i gwmpasu pob agwedd ar y cod, yn enwedig cofnodion hyfforddi staff a chofnodion hunan-wahardd.

Mae darpariaethau pellach o ran hunan-wahardd a marchnata wedi'u cynnwys yn y cod cyfrifoldeb cymdeithasol. Bydd y Cyngor yn ystyried yr holl amodau a chod wrth ystyried ceisiadau neu gyflawni gweithgareddau gorfodi.

Gweler adran 6 y datganiad polisi hwn am ragor o fanylion ac am ofynion y Cyngor mewn perthynas â'r LCCP.

Bydd y Cyngor hefyd yn ystyried adroddiad Prif Swyddog Meddygol Cymru i gefnogi'r amcan trwyddedu er mwyn amddiffyn plant a phobl agored i niwed eraill rhag cael eu niweidio neu eu hecsbloetio gan y gamblo. Mae adroddiad ar y cyd ar ['Gwir Gost Gamblo'](#) gan lechyd Cyhoeddus Cymru a Phrifysgol Bangor yn cydnabod, yn ogystal ag effeithio ar blant a phobl ifanc, fod niwed cysylltiedig â gamblo yn effeithio'n anghymesur ar grwpiau economaidd-gymdeithasol, sy'n gwaethygu'r anghydraddoldebau presennol.

Bydd y Cyngor yn gweithio gyda phartneriaid lleol ac yn ystyried canfyddiadau unrhyw wybodaeth leol ac adroddiadau cenedlaethol.

Mae'r Cyngor yn disgwyl i ymgeiswyr a deiliaid trwydded gynnal y gwiriadau angenrheidiol ar bob aelod perthnasol o staff i sicrhau eu haddasrwydd ar gyfer cyflogaeth, yn enwedig mewn perthynas ag eiddo lle caniateir pobl agored i niwed a phobl dan 18 oed.

Mae'r Awdurdod Lleol yn cael ei arwain gan gyhoeddiad y Gymdeithas Llywodraeth Leol. Mae'r ddogfen 'Tackling gambling related harm – A whole council approach' ([tackle gambling related harm](#)) sy'n nodi'r amrywiaeth o opsiynau sydd ar gael i awdurdodau lleol ymdrin â niwed sy'n gysylltiedig â gamblo gan ddefnyddio pwerau presennol.

## **2.7 Betwatch:**

Mae'r Cyngor yn annog a bydd yn cefnogi gweithredwyr lleol i greu a chynnal rhwydwaith rhannu gwybodaeth i drafod materion sy'n ymwneud â gamblwyr problemus a nodir. Bydd hwn hefyd yn gyfle i weithredwyr drafod materion gyda'r swyddogion trwyddedu.

## **2.8 Amodau:**

Mae holl drwyddedau eiddo Deddf Gamblo 2005 yn ddarostyngedig i amodau gorfodol a rhagosodedig. Bydd amodau ychwanegol yn cael eu hystyried dim ond pan fo tystiolaeth glir o risg i un neu fwy o'r amcanion trwyddedu ac mewn amgylchiadau lle mae angen ategu'r amodau gorfodol a rhagosodedig.

Bydd unrhyw amodau sydd ynghlwm wrth drwyddedau yn gymesur a byddant yn:

- Yn berthnasol i'r angen i wneud yr adeilad arfaethedig yn addas fel cyfleuster gamblo
- Yn uniongyrchol gysylltiedig â'r fangre a'r math o drwydded y gwneir cais amdani
- Yn berthnasol deg a rhesymol i raddfa a math o fangre; ac
- Yn rhesymol ym mhob ffordd arall.

Bydd penderfyniadau ar amodau unigol yn cael eu gwneud fesul achos, er y bydd nifer o fesurau y bydd y Cyngor yn ystyried eu defnyddio pe bai angen canfyddedig, megis defnyddio goruchwylwyr, arwyddion priodol ar gyfer manau oedolion yn unig, ac ati. Rhoddir ystyriaeth benodol i'r asesiad risg lleol

ar gyfer pob eiddo wrth wneud penderfyniadau o'r fath. Gwneir sylwadau penodol yn hyn o beth o dan rai o'r mathau o drwyddedau isod. Bydd y Cyngor hefyd yn disgwyl i'r ymgeisydd am drwydded gynnig ei awgrymiadau ei hun ynghylch ffyrdd y gellir cyflawni'r amcanion trwyddedu'n effeithiol, ar y cyd ag amodau gorfodol a nodir yn Neddf Gamblo 2005 (Amodau Gorfodol a Diofyn) (Cymru a Lloegr) rheoliadau 2007.

Gallai amodau y gall y Cyngor eu gosod ar drwydded gynnwys:

Amodau diogelwch:

- O leiaf dau aelod o staff ar ôl 10pm
- Bydd gan y fangre larwm tresmaswyr a botwm panig
- Bydd monitor yn cael ei osod y tu mewn i'r eiddo uwchben y drws ffyrnt yn dangos delweddau CCTV o gwsmeriaid yn dod i mewn i'r eiddo

Amodau ymddygiad gwrthgymdeithasol:

- Bydd y trwyddedai yn datblygu ac yn cytuno ar brotocol gyda'r Heddlu ynghylch adrodd am ddigwyddiadau, gan gynnwys y math a lefel y digwyddiad a'r dull o gyfathrebu, er mwyn galluogi'r Heddlu i fonitro unrhyw faterion sy'n codi yn neu mewn perthynas â'r eiddo
- Bydd y trwyddedai yn gosod a chynnal arwydd wrth y fynedfa sy'n datgan mai 'dim ond diodydd a brynir yn y fangre y gellir eu hyfed yn y fangre'
- Bydd y trwyddedai yn gweithredu polisi o wahardd unrhyw gwsmeriaid sy'n cyflawni trosedd neu anhrefn o fewn neu du allan i'r fangre

Rheolaethau Dan Oed

- Bydd yn rhaid i gwsmeriaid dan 21 oed ddangos ID
- Dim peiriannau yn y Ganolfan Adloniant i Deuluoedd Didrwydded i'w lleoli o fewn 1 metr i fynedfa'r Ganolfan Gamblo i Oedolion
- Dylai cofnodion hyfforddiant staff neu gopïau ardystiedig fod ar gael yn y fangre i'w harchwilio

Rheolyddion Diogelu Chwaraewyr

- Ni fydd peiriant codi arian na chyfleusterau ATM yn y fangre
- Bydd y trwyddedai yn hyfforddi staff ar faterion penodol sy'n ymwneud â'r ardal leol a bydd yn cynnal hyfforddiant gloywi cyfnodol. Bydd cyfranogiad yn yr hyfforddiant yn cael ei gofnodi'n ffurfiol a'r cofnodion yn cael eu cyflwyno i'r Heddlu neu'r Awdurdod Trwyddedu ar gais
- Bydd dogfennaeth amlwg GamCare yn cael ei harddangos yn y fangre
- Bydd y trwyddedai yn hyfforddi staff i allu adnabod cwsmeriaid sydd mewn perygl o niwed yn sgil gamblo

Nid yw'r rhestr hon yn hollgynhwysfawr ac mae'n rhoi enghraifft yn unig o'r math o amodau y gellir eu gosod yn dibynnu ar yr amgylchiadau ym mhob mangre unigol.

Bydd y Cyngor hefyd yn ystyried mesurau penodol, a all fod yn ofynnol ar gyfer adeiladau, sy'n destun Trwyddedau Mangre lluosog. Gall mesurau o'r fath gynnwys goruchwyllo mynedfeydd; gwahanu mannau gamblo oddi wrth fannau nad ydynt yn ymwneud â gamblo a fynychir gan blant; a goruchwyllo peiriannau gamblo mewn mangreoedd gamblo nad ydynt yn benodol i oedolion er mwyn dilyn yr amcanion trwyddedu. Mae'r materion hyn yn unol â Chanllawiau a Chodau Ymarfer y Comisiwn Gamblo.

Bydd y Cyngor hefyd yn sicrhau'r canlynol, lle mae peiriannau categori C neu uwch ar gael mewn eiddo y mae plant yn cael mynediad iddo:

- Bod yr holl beiriannau o'r fath wedi'u lleoli mewn rhan o'r fangre sydd wedi'i gwahanu oddi wrth weddill y fangre gan rwystr ffisegol sy'n effeithiol i atal mynediad heblaw trwy fynedfa ddynodedig
- Dim ond oedolion sy'n cael mynediad i'r ardal lle mae'r peiriannau hyn
- Goruchwylir mynediad i'r man lle mae'r peiriannau
- Mae'r ardal lle mae'r peiriannau hyn wedi'i threfnu fel y gall y staff neu'r trwyddedai ei harsylwi; ac
- Wrth y fynedfa a thu mewn i unrhyw fannau o'r fath mae hysbysiadau amlwg yn nodi bod mynediad i'r ardal wedi'i wahardd i bobl dan 18 oed

Bydd yr ystyriaethau hyn yn berthnasol i eiddo, gan gynnwys adeiladau lle mae Trwyddedau Mangreoedd lluosog yn berthnasol.

Mae'r Cyngor yn ymwybodol y gall traciau fod yn destun un neu fwy nag un drwydded mangre, ar yr amod bod pob trwydded yn ymwneud â rhan benodol o'r tracio. Yn unol â Chanllawiau'r Comisiwn Gamblo, bydd y Cyngor hwn yn ystyried yr effaith ar y trydydd amcan trwyddedu a'r angen i sicrhau bod mynedfeydd i bob math o fangreoedd yn wahanol a bod plant yn cael eu gwahardd o ardaloedd gamblo lle na chaniateir iddynt fynd i mewn iddynt.

Nodir bod amodau, na all y Cyngor eu gosod ar drwyddedau mangreoedd, sef:

- Unrhyw amod ar y drwydded eiddo sy'n ei gwneud yn amhosibl cydymffurfio ag amod trwydded gweithredu
- Amodau sy'n ymwneud â chategorïau peiriannau gamblo, niferoedd, neu ddull gweithredu
- Amodau sy'n darparu bod angen aelodaeth o glwb neu gorff (mae Deddf Gamblo 2005 yn benodol yn dileu'r gofyniad aelodaeth ar gyfer casino a chlybiau bingo ac mae'r ddarpariaeth hon yn ei atal rhag cael ei adfer); ac
- Amodau mewn perthynas ag arian betio, ffioedd, enillion neu wobrau

Ynghlwm yn Atodiad B mae copi o'r amodau Gorfodol a Diofyn a chronfa amodau model Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen ar gyfer trwyddedau mangreoedd gamblo.

## **2.9 Goruchwylwyr Drysau:**

Mae'r Comisiwn Gamblo yn cyngori yn ei Ganllawiau i awdurdodau trwyddedu, os yw'n pryderu y gallai mangre ddenu anhrefn, neu fod yn destun ymgais i gael mynediad heb awdurdod (e.e. gan blant a phobl ifanc) yna gallai fynnu bod mynedfeydd i'r fangre yn cael eu rheoli gan oruchwyliwr drws, ac mae ganddo hawl i osod trwydded mangre i'r perwyl hwn.

Lle penderfynir bod goruchwyllo mynedfeydd/peiriannau yn briodol ar gyfer achosion penodol, bydd angen ystyried a oes angen trwydded Awdurdod y Diwydiant Diogelwch (SIA) ai peidio. Ni thybir yn awtomatig bod angen iddynt gael eu trwyddedu gan fod y gofynion statudol ar gyfer gwahanol fathau o fangreoedd yn amrywio.

## **2.10 Canolfannau Gamblo i Oedolion**

Bydd y Cyngor yn rhoi sylw penodol i'r angen i amddiffyn plant a phobl sy'n agored i niwed rhag niwed neu gael eu hecsbloetio gan y gamblo a bydd yn disgwyl i'r ymgeisydd fodloni'r Cyngor y bydd mesurau digonol, er enghraifft, i sicrhau nad yw rhai dan 18 oed yn cael mynediad i'r fangre.

Lle darperir cyfleusterau gamblo mewn mangre fel gweithgaredd atodol at brif ddiben y fangre; e.e. ardaloedd gwasanaeth traffyrdd a chanolfannau siopa. Bydd y cyngor yn disgwyl i'r ardal gamblo gael ei ddiffinio'n glir i sicrhau bod cwsmeriaid yn gwbl ymwybodol eu bod yn gwneud dewis i fynd i mewn i'r fangre gamblo a bod y fangre'n cael ei oruchwyllo'n ddigonol bob amser.

## **2.11 Canolfannau Adloniant i Deuluoedd (Trwyddedig)**

Bydd y Cyngor yn rhoi sylw penodol i'r angen i amddiffyn plant a phobl agored i niwed rhag niwed neu rhag cael eu hecsbloetio gan y gamblo a bydd yn disgwyl i'r ymgeisydd fodloni'r Cyngor, er enghraifft, y bydd mesurau digonol i sicrhau nad yw rhai dan 18 oed yn cael mynediad i'r ardaloedd peiriannau gamblo i oedolion yn unig.

Caniateir mynediad i blant a phobl ifanc i Ganolfannau Adloniant i Deuluoedd (FECs) trwyddedig ond ni chaniateir iddynt chwarae peiriannau Categori C. Mae'r Cyngor yn disgwyl i'r ymgeisydd sicrhau y bydd mesurau digonol yn eu lle i atal rhai dan 18 oed rhag cael mynediad i'r ardaloedd peiriannau gamblo i oedolion yn unig. Bydd y Cyngor yn disgwyl i ymgeiswyr fodloni'r amcanion trwyddedu a chydymffurfio â'r holl amodau gorfodol a Chodau Ymarfer a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Gamblo.

Mae gofyniad bod yn rhaid cael gwahaniad clir rhwng y mathau o beiriannau er mwyn sicrhau nad yw plant yn gallu defnyddio peiriannau Categori C. Rhaid lleoli pob peiriant Categori C mewn rhan o'r fangre sydd ar wahân i weddill y fangre gan rwystr ffisegol, a fydd yn atal mynediad heblaw trwy fynedfa ddynodedig. Bydd y Cyngor yn ceisio sicrhau'r canlynol:

- dim ond oedolion sy'n cael mynediad i'r ardal lle mae'r peiriannau
- bod mynediad i'r man lle lleolir y peiriannau yn cael ei oruchwyllo

- bod yr ardal lle mae'r peiriannau wedi'i lleoli wedi'i threfnu fel y gall staff y gweithredwr neu'r trwyddedai ei harsylwi
- wrth y fynedfa i, a thu mewn i unrhyw ardal o'r fath, mae hysbysiadau wedi'u harddangos yn amlwg yn nodi bod mynediad i'r ardal wedi'i wahardd i bobl dan 18 oed

## 2.12 Casinos

Nid oes unrhyw gasinos yn gweithredu o fewn y Fwrdeistref ar hyn o bryd. Yn dilyn ymgynghoriad, penderfyniad y Cyngor oedd peidio â mabwysiadu penderfyniad i beidio â rhoi trwyddedau casino ym Mwrdeistref Sirol Torfaen fel y darperir ar ei gyfer yn adran 166 o Ddeddf Gamblo 2005. Bydd y penderfyniad hwn yn cael ei adolygu yn ôl yr angen, ac o leiaf bob tair blynedd yn unol â mabwysiadu'r Datganiad Polisi Gamblo.

### ***Ystyriaethau/Amodau Trwydded:***

Bydd y Cyngor yn gosod amodau ar drwyddedau mangreoedd casino yn unol â'r egwyddorion a nodir yng Nghyllwr'r Comisiwn Gamblo, gan gadw mewn cof yr amodau gorfodol a restrir yn y Canllawiau ac Amodau Trwydded a Chodau Ymarfer a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Gamblo.

## 2.13 Mangreoedd Bingo

Bydd angen i Awdurdodau Trwyddedu fodloni eu hunain y gellir chwarae bingo mewn unrhyw eiddo bingo y maent yn rhoi trwydded mangre ar ei gyfer. Bydd hyn yn ystyriaeth berthnasol pan fo gweithredwr mangre bingo presennol yn gwneud cais i amrywio ei drwydded i eithrio ardal o'r fangre bresennol o'i chwmpas ac yna'n gwneud cais am drwydded mangre newydd, neu drwyddedau lluosog, ar gyfer yr ardal honno neu'r ardaloedd hynny sydd wedi'u heithrio.

Gall deiliad trwydded mangre bingo sicrhau bod nifer o beiriannau gamblo categori B ar gael i'w defnyddio, heb fod yn fwy nag 20% o gyfanswm nifer y peiriannau gamblo, sydd ar gael i'w defnyddio yn y fangre.

Caniateir plant a phobl ifanc i mewn i mangreoedd bingo; fodd bynnag, ni chaniateir iddynt gymryd rhan yn y bingo ac os bydd peiriannau categori B neu C ar gael i'w defnyddio, rhaid eu gwahanu oddi wrth fannau lle caniateir plant a phobl ifanc.

Lle mae peiriannau Categori C neu uwch ar gael yn y mangre bingo y mae plant yn cael mynediad iddo, bydd y Cyngor yn ceisio sicrhau'r canlynol:

- bod pob peiriant o'r fath wedi'i leoli mewn rhan o'r fangre sydd ar wahân i weddill y fangre gan rwystr ffisegol i atal mynediad heblaw trwy fynedfa ddynodedig
- dim ond oedolion sy'n cael mynediad i'r ardal lle mae'r peiriannau
- bod mynediad i'r man lle lleolir y peiriannau yn cael ei oruchwylio

- bod yr ardal lle mae'r peiriannau wedi'u lleoli wedi'i threfnu fel y gall staff neu'r trwyddedai ei harsylwi; ac
- wrth y fynedfa i, a'r tu mewn i unrhyw ardal o'r fath, bod hysbysiadau'n cael eu harddangos yn amlwg yn nodi bod mynediad i'r ardal wedi'i wahardd i bobl dan 18 oed.

Lle caniateir bingo mewn mangreoedd trwyddedig sy'n gwerthu alcohol, rhaid i hwn fod yn bingo trosiant isel yn unig a disgwylir cydymffurfedd ag unrhyw Godau Ymarfer a chyngor a gyhoeddir gan y Comisiwn Gamblo. Bydd bingo trosiant uchel angen trwydded Gweithredu Bingo.

## 2.14 Mangreoedd Betio

### *Peiriannau Betio:*

Terfynellau Betio Hunanwasanaeth (SSBT's)

Mae'r Ddeddf yn darparu nad yw peiriant yn beiriant gamblo os yw wedi'i ddylunio neu ei addasu i'w ddefnyddio i fetio ar ddigwyddiadau go iawn yn y dyfodol. Gall Mangreoedd Betio ddarparu peiriannau sy'n derbyn betiau ar ddigwyddiadau byw, megis rasio ceffylau, yn lle gosod bet dros y cownter. Nid yw'r "peiriannau betio" hyn yn beiriannau gamblo: y cyfan y maent yn ei wneud yw awtomeiddio'r broses, y gellir ei chynnal yn bersonol ac, felly, nid oes angen ei rheoleiddio fel peiriant gamblo.

Fodd bynnag, pan fydd peiriant ar gael i gymryd betiau ar rasys rhithwir (hynny yw, canlyniadau a/neu ddelweddau a gynhyrchir gan gyfrifiadur i ymdebygu i rasys neu ddigwyddiadau eraill) peiriant gamblo yw'r peiriant hwnnw ac mae'n cyfrif tuag at uchafswm nifer y peiriannau gamblo a ganiateir, a rhaid iddo fodloni'r cyfyngiadau categori perthnasol ar gyfer y fangre.

Bydd y Cyngor, yn unol â Chanllawiau'r Comisiwn Gamblo, yn ystyried maint yr eiddo, nifer y safleoedd cownter sydd ar gael ar gyfer trafodion person-i-berson, a gallu staff i fonitro'r defnydd o'r peiriannau gan blant a phobl ifanc (mae'n drosedd i rai dan 18 oed fetio) neu gan bobl agored i niwed, wrth ystyried nifer/natur/amgylchiadau'r peiriannau betio y mae gweithredwr am eu cynnig. Dylai'r fangre hefyd arddangos hysbysiadau gyda chyswllt ar gyfer sefydliadau cymorth e.e. GamCare.

Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod gan rai bwcis nifer o fangreoedd yn ei ardal. Er mwyn sicrhau bod unrhyw faterion cydymffurfio yn cael eu cydnabod a'u datrys cyn gynted â phosibl, gofynnir i weithredwyr roi un pwynt cyswllt penodol i'r awdurdod a ddylai fod yn uwch unigolyn ac y bydd yr awdurdod yn cysylltu ag ef yn gyntaf pe bai unrhyw ymholiadau neu faterion cydymffurfio yn codi.

Peiriannau Gamblo

Mae adran 235(1) o DDeddf Gamblo 2005 yn nodi'r diffiniad o beiriant gamblo ac yn datgan bod "peiriant gamblo" yn golygu peiriant sydd wedi'i ddylunio neu ei addasu i'w ddefnyddio gan unigolion i gamblo (p'un a ellir ei ddefnyddio hefyd



at ddibenion eraill). Mae Deddf Gamblo 2005 a chanllawiau Adran 182 yn darparu gwybodaeth bellach mewn perthynas ag eithriadau.

## **2.15 Traciau**

Mae'r Cyngor yn ymwybodol y gall traciau fod yn destun un neu fwy nag un drwydded mangre, ar yr amod bod pob trwydded yn ymwneud â rhan benodol o'r trac. Yn unol â Chanllawiau'r Comisiwn Gamblo, bydd y Cyngor yn ystyried yn arbennig yr effaith ar y trydydd amcan trwyddedu (h.y. amddiffyn plant a phobl agored i niwed rhag cael eu niweidio neu eu hecsbloetio gan y gamblo) a'r angen i sicrhau bod mynedfeydd i bob math o fangroedd yn wahanol a bod plant yn cael eu gwahardd o ardaloedd gamblo lle na chaniateir iddynt fynd i mewn.

Bydd y Cyngor felly'n disgwyl i'r ymgeisydd am drwydded mangre ddangos mesurau addas i sicrhau nad oes gan blant fynediad i gyfleusterau gamblo i oedolion yn unig. Nodir y caniateir i blant a phobl ifanc fynd i mewn i fannau traciau lle darperir cyfleusterau betio ar ddiwrnodau pan fydd rasio cŵn a/neu rasio ceffylau yn digwydd, ond eu bod yn dal i gael eu hatal rhag mynd i mewn i ardaloedd lle mae peiriannau gamblo (ac eithrio peiriannau categori D) yn cael eu darparu.

## **2.16 Peiriannau Gamblo:**

Mae nifer o gategoriâu o beiriannau gamblo a ganiateir mewn safeoedd trwyddedig a mangreoedd eraill ac mae nifer y peiriannau o'r fath y gellir eu caniatáu ym mhob math o eiddo gamblo wedi'i nodi yn y Ddeddf. Nid oes gan y Cyngor y pŵer i osod terfynau gwahanol nac ehangu neu gyfyngu ymhellach ar y categorïau o beiriannau a ganiateir. Yr eithriad i hyn yw mangreoedd trwyddedig i gyflenwi alcohol sy'n dal hawlenni peiriannau gamblo, lle mae gan awdurdodau trwyddedu ddisgresiwn i nodi nifer y peiriannau gamblo a ganiateir. Yn ogystal, gosodir terfynau ar wahân yn y Ddeddf ar gyfer rhai mathau o drwyddedau a roddir gan awdurdodau trwyddedu.

Mae tabl sy'n nodi'r hawl i beiriannau gamblo ym mhob math o fangre wedi'i atodi yn Atodiad C.

Mae isafswm oedran o 18 ar gyfer pob chwaraewr ar gyfer pob peiriant categori A, B ac C, gan gynnwys peiriannau gamblo categori B3A sy'n cynnig gemau arddull loteri. Fodd bynnag, nid oes isafswm oedran ar gyfer chwaraewyr peiriannau categori D. Rhaid i ddeiliad unrhyw hawlen neu drwydded mangre gydymffurfio â'r codau ymarfer a gyhoeddwyd gan y Comisiwn ar leoliad peiriannau gamblo a mynediad iddynt gan blant a phobl ifanc, a'r gwahanu oddi wrth beiriannau categori C a B lle mae'r rheini hefyd wedi'u lleoli yn yr un fangre.

Lle bo gan yr ymgeisydd drwydded gweithredu betio cronfa ac yn mynd i ddefnyddio'r hawl i bedwar peiriant gamblo, dylai peiriannau (ac eithrio peiriannau Categori D) gael eu lleoli mewn ardaloedd lle mae plant wedi'u gwahardd.

## **2.17 Peiriannau Betio:**

Bydd y Cyngor, yn unol â Chanllawiau'r Comisiwn Gamblo, yn ystyried maint y fangre a gallu'r staff i fonitro'r defnydd o beiriannau gan blant a phobl ifanc (mae'n drosedd i rai dan 18 oed fetio) neu gan bobl agored i niwed, wrth ystyried nifer/natur/amgylchiadau'r peiriannau betio y mae gweithredwr am eu cynnig.

## **2.18 Ceisiadau a Chynlluniau:**

Mae'r DDeddf Gamblo a'r rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr gyflwyno cynlluniau o'r eiddo gyda'u cais, er mwyn sicrhau bod gan y Cyngor y wybodaeth angenrheidiol i wneud penderfyniad gwybodus ynghylch a yw'r eiddo'n addas ar gyfer gamblo. Byddant hefyd yn cael eu defnyddio i'r Cyngor gynllunio gweithgarwch archwilio mangreoedd yn y dyfodol.

Dylid llunio cynlluniau ar gyfer traciau i raddfa sy'n ddigon manwl i gynnwys y wybodaeth sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

Mae'n bosibl y bydd rhai traciau wedi'u lleoli ar dir amaethyddol lle nad yw'r perimedr wedi'i ddiffinio yn rhinwedd wal neu ffens allanol, megis traciau rasio pwynt-i-bwynt. Mewn achosion o'r fath, pan godir tâl mynediad, gall deiliaid trwydded mangreoedd trac godi strwythurau dros dro i gyfyngu mynediad i eiddo.

Yn yr achosion prin le na ellir diffinio'r perimedr allanol, mae'n debygol na fydd y trac dan sylw wedi'i ddylunio'n benodol ar gyfer cynnal digwyddiadau chwaraeon neu rasys yn aml. Mewn achosion o'r fath efallai y byddai'n well darparu cyfleusterau betio trwy hysbysiadau defnydd achlysurol lle nad oes angen diffinio terfyn y mangreoedd.

Mae'r Cyngor yn sylweddoli ei bod weithiau'n anodd diffinio union leoliad ardaloedd betio ar draciau. Nid oes angen dangos union leoliad y cyfleusterau betio ar gynlluniau trac, yn rhinwedd y ffaith bod betio yn cael ei ganiatáu unrhyw le ar y fangre ac oherwydd yr anawsterau sy'n gysylltiedig â nodi union leoliadau rhai mathau o draciau. Dylai ymgeiswyr ddarparu digon o wybodaeth y gall y Cyngor hwn fodloni ei hun bod y cynllun yn nodi'r prif feysydd lle gallai betio ddigwydd. Ar gyfer caeau rasio yn benodol, rhaid nodi ar y cynllun unrhyw ardal fetio sy'n destun y "rheol pum gwaith" (a elwir yn gylchoedd betio fel arfer).

## **2.19 Ffeiriau Teithiol**

Mae'r Cyngor hwn yn gyfrifol am benderfynu, lle mae peiriannau categori D a/neu gamblo am wobrau cyfle cyfartal heb hawlen i fod ar gael i'w defnyddio mewn ffeiriau teithiol, a yw'r gofyniad statudol nad yw'r cyfleusterau ar gyfer gamblo yn ddim mwy na difyrwch ategol yn y ffair yn cael ei fodloni.

Bydd y Cyngor hefyd yn ystyried a yw'r ymgeisydd yn dod o fewn y diffiniad statudol o ffair deithiol a gynhwysir yn Adran 286 o DDeddf Gamblo 2005.

Yr uchafswm statudol o 27 diwrnod ar gyfer y tir sy'n cael ei ddefnyddio fel ffair, yw fesul blwyddyn galendr, a'i fod yn berthnasol i'r darn o dir y cynhelir y ffeiriau arno, ni waeth ai'r un ffeiriau teithiol neu ffeiriau teithiol gwahanol sy'n meddiannu'r tir. Bydd y Cyngor yn gweithio gyda'i awdurdodau cyfagos i sicrhau bod tir, sy'n croesi ein ffiniau, yn cael ei fonitro fel nad eir y tu hwnt i'r terfynau statudol.

## 2.20 Datganiadau Dros Dro

Mae'n bosibl y bydd datblygwyr am wneud cais i'r Cyngor hwn am ddatganiadau dros dro cyn ymrwymo i gcontract i brynu neu brydlesu eiddo neu dir i farnu a yw'n werth bwrw ymlaen â datblygiad yng ngoleuni'r angen i gael trwydded mangre. Nid oes angen i'r ymgeisydd ddal trwydded gweithredu er mwyn gwneud cais am ddatganiad dros dro.

Mae adran 204 o'r DDeddf Gamblo yn darparu i berson wneud cais i'r Cyngor am ddatganiad dros dro mewn perthynas â mangre y mae ef neu hi:

- yn disgwyl cael ei adeiladu
- yn disgwyl cael ei newid; neu
- yn disgwyl caffael hawl i feddiannu

Mae'r broses ar gyfer ystyried cais am ddatganiad dros dro yr un fath â'r broses ar gyfer cais am drwydded mangre. Mae'n ofynnol i'r ymgeisydd roi rhybudd o'r cais yn yr un modd â gwneud cais am drwydded mangre. Gall awdurdodau cyfrifol a phartïon a chanddynt fuddiant gyflwyno sylwadau ac mae hawliau apelio.

Yn wahanol i'r cais am drwydded mangre, nid oes rhaid i'r ymgeisydd ddal neu fod wedi gwneud cais am drwydded gweithredu gan y Comisiwn Gamblo (ac eithrio yn achos trac) ac nid oes rhaid iddynt fod â hawl i feddiannu'r fangre o ran yr hyn y gwneir eu cais dros dro.

Yna gall deiliad datganiad dros dro wneud cais am drwydded mangre unwaith y bydd y fangre wedi'i hadeiladu, ei newid neu ei chaffael. Bydd y Cyngor yn cael ei gyfyngu o ran y materion y gall eu hystyried wrth benderfynu ar y cais am drwydded mangre, ac o ran sylwadau ar geisiadau am drwydded mangre sy'n dilyn caniatáu datganiad dros dro, ni ellir ystyried unrhyw sylwadau pellach gan awdurdodau perthnasol neu bartïon â diddordeb oni bai:

- eu bod yn ymwneud â materion na ellid bod wedi mynd i'r afael â hwy ar y cam datganiad dros dro; neu
- eu bod yn adlewyrchu newid yn amgylchiadau'r ymgeisydd

Yn ogystal, gall y Cyngor wrthod y drwydded mangre (neu ei chaniatáu ar delerau gwahanol i'r rhai sydd ynghlwm wrth y datganiad dros dro) dim ond drwy gyfeirio at faterion:

- na allai gwrthwynebwyr fod wedi'u codi ar y cam datganiad dros dro

- sydd ym marn y Cyngor yn adlewyrchu newid yn amgylchiadau'r gweithredwr; neu
- lle nad yw'r eiddo wedi'i adeiladu yn unol â'r cynllun a gyflwynwyd gyda'r cais. Rhaid i hyn fod yn newid sylweddol i'r cynllun ac mae'r Cyngor hwn yn nodi y gall drafod unrhyw bryderon sydd ganddo gyda'r ymgeisydd cyn gwneud penderfyniad

### **3. Hawlenni/Hysbysiadau Defnydd Dros Dro ac Achlysurol**

Mae'r mathau hyn o awdurdodiadau fel a ganlyn:

- Trwyddedau Canolfannau Adloniant i Deuluoedd (UFEC) Didrwydded
- Trwyddedau Gwobrau Gamblo
- Hysbysiadau Defnydd Dros Dro (TUN's)
- Hysbysiadau Defnydd Achlysurol (OUN's)
- Trwyddedau Peiriannau Gamblo mewn Adeiladau Trwyddedig
- Trwyddedau Gamblo mewn Clwb
- Trwyddedau Peiriannau Gamblo mewn Clwb

Mae tabl sy'n nodi'r hawl i beiriannau gamblo wedi'i atodi yn Atodiad C.

#### **3.1 Hawlenni Peiriannau Gamblo Didrwydded mewn Canolfan Adloniant i Deuluoedd**

Dim ond mangreuedd sy'n cael eu defnyddio'n gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer sicrhau bod peiriannau gamblo ar gael a all feddu ar drwydded Canolfan Adloniant i Deuluoedd Didrwydded. O ganlyniad, yn gyffredinol ni chaniateir i eiddo o'r fath gyfateb i ganolfan siopa gyfan, maes awyr, gorsaf wasanaeth traffordd neu debyg. Yn nodweddiadol, bydd peiriannau mewn man caeedig dynodedig ac wedi'i ddiffinio'n glir wrth wneud cais i'r Cyngor.

Lle nad oes gan eiddo Drwydded Mangre ond ei fod yn dymuno darparu peiriannau gamblo categori D, gall wneud cais i'r Cyngor am y drwydded hon.

Dylid nodi bod yn rhaid i'r ymgeisydd ddangos y bydd y fangre yn cael ei defnyddio'n gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer gwneud peiriannau gamblo ar gael i'w defnyddio ac y byddai, felly, yn eithrio unrhyw fangre a ddefnyddir yn bennaf at unrhyw ddibenion eraill, e.e. ffreturau, siopau cludfwyd cyflym, canolfannau hamdden, garejys a gorsafoedd petrol, swyddfeydd tacsis.

Dim ond os yw'r Cyngor yn fodlon y bydd y fangre'n cael ei defnyddio fel Canolfan Adloniant i Deuluoedd Didrwydded y gellir caniatáu cais am drwydded ac yr ymgynghorwyd â Phrif Swyddog yr Heddlu ynghylch y cais.

Bydd y Cyngor yn disgwyl i'r ymgeisydd ddangos bod polisiâu a gweithdrefnau yn eu lle i amddiffyn plant rhag niwed. Nid yw niwed yn y cyd-destun hwn yn gyfyngedig i niwed yn sgil gamblo ond mae'n cynnwys ystyriaethau amddiffyn plant ehangach. Bydd effeithlonrwydd polisiâu a gweithdrefnau o'r fath yn cael

eu hystyried yn ôl eu teilyngdod. Fodd bynnag, gallant gynnwys mesurau/hyfforddiant priodol i staff mewn perthynas â phlant ysgol yr amheuir eu bod yn chwarae triwant yn y fangre, mesurau/hyfforddiant sy'n ymdrin â sut y byddai staff yn ymdrin â phlant ifanc iawn heb oruchwyliaeth ar y fangre, neu blant sy'n achosi problemau canfyddedig ar/o gwmpas y fangre.

Bydd y Cyngor hwn hefyd yn disgwyl, yn unol ag Arweiniad y Comisiwn Gamblo, bod ymgeiswyr yn dangos:

- Dealltwriaeth lawn o fetiau a gwobrau mwyaf gamblo a ganiateir mewn Canolfannau Adloniant i Deuluoedd Didrwydded
- Nad oes gan yr ymgeisydd unrhyw euogfarnau perthnasol (y rhai a nodir yn Atodlen 7 y Ddeddf); drwy ddarparu adroddiad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd Sylfaenol i'r Cyngor o fewn mis i'w gyhoeddi
- Bod staff yn cael eu hyfforddi i gael dealltwriaeth lawn o'r uchafswm betio a gwobrau

Dylid nodi na all y Cyngor osod amodau ar y math hwn o drwydded.

### **3.2 Hawlenni Peiriannau Gamblo Mangreoedd Trwyddedig (Alcohol)**

Mae darpariaeth yn y Ddeddf i fangreoedd sydd â thrwydded i werthu alcohol i'w yfed yn y fangre, i gael 2 beiriant gamblo yn awtomatig, o gategoriâu C a/neu D. Dim ond hysbysu'r awdurdod trwyddedu sydd ei angen ar y fangre. Gall y Cyngor ddileu'r awdurdodiad awtomatig mewn perthynas ag unrhyw fangre penodol os:

- Nid yw darparu'r peiriannau yn rhesymol gyson â chyflawni'r amcanion trwyddedu
- Mae gamblo wedi digwydd yn y fangre sy'n torri amod o Adran 282 o'r DDeddf Gamblo (h.y. bod hysbysiad ysgrifenedig wedi'i roi i'r awdurdod trwyddedu, bod ffi wedi'i darparu a bod cydymffurfedd wedi digwydd ag unrhyw god ymarfer perthnasol a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Gamblo am leoliad a gweithrediad y peiriant)
- Defnyddir yr eiddo'n bennaf ar gyfer gamblo
- Mae trosedd o dan y DDeddf Gamblo wedi'i chyflawni yn y fangre

Os yw eiddo'n dymuno cael mwy na 2 beiriant, yna mae angen iddo wneud cais am drwydded a rhaid i'r Cyngor hwn ystyried y cais hwnnw ar sail yr amcanion trwyddedu, unrhyw ganllawiau a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Gamblo, Codau Ymarfer a "*materion y mae'r Cyngor yn eu hystyried yn berthnasol.*" Mae'r Cyngor o'r farn y bydd "*materion o'r fath*" yn cael eu penderfynu fesul achos ond yn gyffredinol bydd ystyriaeth i'r angen i amddiffyn plant a phobl agored i niwed rhag niwed neu rhag cael eu hecsbloetio gan y gamblo a bydd yn disgwyl i'r ymgeisydd fodloni'r Cyngor bod yna yn fesurau digonol i sicrhau nad oes gan rai dan 18 oed fynediad at y peiriannau gamblo i oedolion yn unig. Gall mesurau a fydd yn bodloni'r Cyngor na fydd mynediad gynnwys y peiriannau oedolion o fewn golwg y bar, neu yng golwg staff a fydd yn monitro nad yw'r peiriannau'n cael eu defnyddio gan rai dan 18 oed. Gall hysbysuadau ac arwyddion hefyd fod o gymorth. O ran amddiffyn pobl agored i niwed, efallai y bydd ymgeiswyr am

ystyried darparu taflenni gwybodaeth/rhifau llinell gymorth ar gyfer sefydliadau fel GamCare.

Cydnabyddir y gall rhai mangreoedd trwyddedig i gyflenwi alcohol wneud cais am drwydded mangre ar gyfer eu hardaloedd trwyddedig di-alcohol. Mae'n debygol y byddai angen gwneud cais am unrhyw gais o'r fath, ac ymdrin ag ef fel Trwydded Mangre Canolfan Gamblo i Oedolion.

Dylid nodi y gall y Cyngor benderfynu caniatáu'r cais gyda nifer llai o beiriannau a/neu gategori gwahanol o beiriannau na'r hyn y gwnaed cais amdano. Ni ellir atodi amodau (heblaw am y rhain).

Dylid nodi hefyd bod yn rhaid i ddeiliad trwydded gydymffurfio ag unrhyw God Ymarfer a gyhoeddir gan y Comisiwn Gamblo ynghylch lleoliad a gweithrediad y peiriant.

### **3.3 Hawlenni Gwobrau Gamblo**

Mae gan y Cyngor yr hawl yn unol â'r 'Datganiad o Egwyddorion' hwn i nodi materion y mae'r Awdurdod hwn yn bwriadu eu hystyried wrth benderfynu ar addasrwydd yr ymgeisydd am drwydded. Mae'r Cyngor wedi paratoi yn ei 'Ddatganiad o Egwyddorion', y dylai'r ymgeisydd nodi'r mathau o gamblo y mae'n bwriadu eu cynnig ac y dylai'r ymgeisydd allu dangos:

- Eu bod yn deall y cyfyngiadau ar fetio a gwobrau a nodir yn y Rheoliadau
- A bod yr gamblo a gynigir o fewn y gyfraith
- Polisiâu clir sy'n amlinellu'r camau i'w cymryd i amddiffyn plant rhag niwed

Wrth wneud ei benderfyniad ar gais am y drwydded hon nid oes angen i'r awdurdod trwyddedu ystyried yr amcanion trwyddedu ond mae'n rhaid iddo ystyried unrhyw ganllawiau gan y Comisiwn Gamblo.

Dylid nodi bod amodau yn Neddf Gamblo 2005 y mae'n rhaid i'r trwyddedai gydymffurfio â hwy, ond na all yr awdurdod trwyddedu atodi amodau. Yr amodau yn y Ddeddf yw:

- Rhaid cydymffurfio â'r terfynau ar ffioedd cyfranogiad, fel y nodir yn y rheoliadau
- Mae'n rhaid i bob cyfle i gymryd rhan yn yr gamblo gael ei ddyrannu ar y fangre lle mae'r gamblo'n digwydd ac ar un diwrnod; rhaid chwarae a chwblhau'r gêm ar y diwrnod y dyrennir y cyfleoedd; a rhaid i ganlyniad y gêm fod yn gyhoeddus yn y fangre ar y diwrnod y caiff ei chwarae
- Ni ddylai'r wobwr y chwarae'r y gêm amdani fod yn fwy na'r swm a nodir yn y rheoliadau (os yw'n wobwr ariannol), na'r gwerth penodedig (os nad yw'n wobwr ariannol); ac
- Ni ddylai cymryd rhan yn yr gamblo roi'r hawl i'r chwaraewr gymryd rhan mewn unrhyw gamblo arall

### 3.4 Hawlenni Gamblo mewn Clwb a Pheiriannau mewn Clwb

Gall Clybiau Aelodau a Sefydliadau Lles Glowyr (ond nid Clybiau Masnachol) wneud cais am Hawlen Gamblo mewn Clwb neu Hawlen Peiriannau Gamblo mewn Clwb. Bydd yr Hawlen Gamblo mewn Clwb yn galluogi'r eiddo i ddarparu peiriannau gamblo (3 pheiriant o categori B, C neu D), gamblo cyfle cyfartal a gemau siawns. Gall Clybiau Aelodau a Sefydliadau Glowyr a hefyd Clybiau Masnachol wneud cais am Hawlen Peiriannau mewn Clwb. Bydd Hawlen Peiriannau Gamblo mewn Clwb yn galluogi'r eiddo i ddarparu peiriannau gamblo (3 pheiriant categori B, C neu D). Ni chaiff Clybiau Masnachol leoli peiriannau gamblo categori B3A sy'n cynnig gemau loteri yn eu clwb.

Mae'n rhaid i'r Cyngor fodloni ei hun bod y clwb yn bodloni gofynion y Ddeddf i gael hawlen gamblo mewn clwb. Wrth wneud hynny bydd yn ystyried nifer o faterion fel yr amlinellwyd yng Nghanllawiau'r Comisiwn Gamblo. Mae'r rhain yn cynnwys cyfansoddiad y clwb, amllder gamblo, a sicrhau bod mwy na 25 o aelodau. Rhaid cynnal y clwb "yn gyfan gwbl neu'n bennaf" at ddibenion heblaw gamblo, oni bai bod yr gamblo yn cael ei ganiatáu gan reoliadau ar wahân. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi gwneud rheoliadau ac mae'r rhain yn ymwneud â chlybiau bridge a chwist.

Dim ond ar sail y canlynol y gall y Cyngor wrthod cais:

- (a) nad yw'r ymgeisydd yn bodloni'r gofynion ar gyfer clwb aelodau neu glwb masnachol neu sefydliad lles glowyr ac felly nid oes ganddo hawl i gael y math o hawlen y mae wedi gwneud cais amdani
- (b) Bod mangre'r ymgeisydd yn cael ei defnyddio'n gyfan gwbl neu'n bennaf gan blant a/neu bobl ifanc
- (c) Bod yr ymgeisydd wedi cyflawni trosedd o dan y Ddeddf neu dorri hawlen wrth ddarparu cyfleusterau gamblo
- (ch) Mae hawlen sydd gan yr ymgeisydd wedi'i dileu yn ystod y deng mlynedd diwethaf; neu
- (d) Mae gwrthwynebiad wedi'i gyflwyno gan y Comisiwn neu'r heddlu.

Mae gweithdrefn 'llwybr carlam' hefyd ar gael o dan y Ddeddf ar gyfer mangreoedd sydd â Thystysgrif Mangre Clwb o dan Ddeddf Trwyddedu 2003 (Atodlen 12 paragraff 10). Ni all clybiau masnachol ddal Tystysgrifau Mangre Clwb o dan Ddeddf Trwyddedu 2003 ac felly ni allant ddefnyddio'r weithdrefn llwybr cyflym. Fel y dywed Canllawiau'r Comisiwn Gamblo ar gyfer awdurdodau lleol: "O dan y drefn garlam nid oes cyfle i wrthwynebiadau gael eu gwneud gan y Comisiwn na'r heddlu, ac mae'r seiliau y gall awdurdod wrthod trwydded yn cael eu lleihau." a "Y seiliau ar gyfer gwrthod cais o dan y broses yw:

- (a) Bod y clwb wedi'i sefydlu'n bennaf ar gyfer gamblo, ac eithrio gamblo a bennir o dan atodlen 12
- (b) Yn ogystal â'r gamblo rhagnodedig, bod yr ymgeisydd yn darparu cyfleusterau ar gyfer gamblo arall; neu
- (c) Bod hawlen gamblo clwb neu hawlen peiriannau mewn clwb a roddwyd i'r ymgeisydd yn ystod y deng mlynedd diwethaf wedi'i ganslo."

Mae amodau statudol ar hawlenni gamblo mewn clwb nad oes unrhyw blentyn yn defnyddio peiriant categori B neu C yn y fangre a bod y deiliad yn cydymffurfio ag unrhyw ddarpariaeth berthnasol mewn cod ymarfer ynghylch lleoliad a gweithrediad peiriannau gamblo.

### **3.5 Hysbysiadau Defnydd Dros Dro**

Mae Hysbysiadau Defnydd Dros Dro yn caniatáu defnyddio mangre ar gyfer gamblo lle nad oes trwydded mangre ond lle mae gweithredwyr gamblo yn dymuno defnyddio'r fangre dros dro i ddarparu cyfleusterau ar gyfer gamblo. Byddai mangreoedd a allai fod yn addas ar gyfer Hysbysiad Defnydd Dros Dro, yn ôl y Comisiwn Gamblo, yn cynnwys gwestai, canolfannau cynadledda a lleoliadau chwaraeon.

Dim ond i berson neu gwmni sy'n dal trwydded weithredu berthnasol y gall y Cyngor roi Hysbysiad Defnydd Dros Dro, h.y. trwydded gweithredu casino nad yw o bell.

Mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol y pŵer i benderfynu pa fath o gamblo y gellir ei awdurdodi gan Hysbysiadau Defnydd Dros Dro. Mae Deddf Gamblo 2005 (Rheoliadau Hysbysiadau Defnydd Dros Dro 2007) yn nodi mai dim ond i ganiatáu darparu cyfleusterau neu gamblo cyfle cyfartal y gellir defnyddio Hysbysiadau Defnydd Dros Dro, lle bwriedir i'r gamblo gynhyrchu un enillydd, sydd yn ymarferol yn golygu twrnameintiau pocer.

Mae nifer o gyfyngiadau statudol o ran hysbysiadau defnydd dros dro. Mae ystyr "mangre" yn rhan 8 o'r Ddeddf yn cael ei drafod yng Nghanllawiau'r Comisiwn Gamblo. Yn yr un modd â "mangre", bydd y diffiniad o "set o fangreoedd" yn gwestiwn o ffaith yn amgylchiadau penodol pob hysbysiad a roddir. Yn y Ddeddf diffinnir "mangre" fel un sy'n cynnwys "unrhyw le". Wrth ystyried a yw lle yn dod o fewn y diffiniad o "set o fangreoedd", mae angen i'r Cyngor edrych, ymhlith pethau eraill, ar berchnogaeth/meddiannaeth a rheolaeth yr eiddo.

Mae'r Cyngor hwn yn disgwyl gwrthwynebu rhybuddion lle mae'n ymddangos mai eu heffaith fyddai caniatáu gamblo rheolaidd mewn man y gellid ei ddisgrifio fel un set o fangreoedd; fel yr argymhellwyd gan Ganllawiau'r Comisiwn Gamblo i awdurdodau trwyddedu.

### **3.6 Hysbysiadau Defnydd Achlysurol**

Lle mae betio ar drac am 8 diwrnod neu lai mewn blwyddyn galendr, gellir caniatáu betio trwy hysbysiad defnydd achlysurol (OUN) heb fod angen Trwydded Mangre lawn. Y bwriad y tu ôl i OUNs yw caniatáu i weithredwyr betio trwyddedig gyda chaniatâd priodol gan y Comisiwn, i ddefnyddio traciau am gyfnodau byr ar gyfer cynnal betio, lle mae'r digwyddiad y mae'r betio i ddigwydd arno yn ddigwyddiad dros dro, anaml (mae'r OUN yn hepgor yr angen am drwydded mangre betio ar gyfer y trac o dan yr amgylchiadau hyn).



Gellir rhedeg nosweithiau rasio codi arian anfasnachol fel digwyddiadau betio mewn lleoliadau chwaraeon o dan awdurdod OUN, p'un a yw'r digwyddiad chwaraeon y cymerir y betiau arno yn cael ei gynnal yn y lleoliad hwnnw ai peidio. Nid oes angen i'r digwyddiad chwaraeon y mae'r betiau'n cael ei gymryd arno neu y byddant yn cael ei gymryd arno hefyd fod yn digwydd ar yr un pryd â'r betio o dan yr OUN.

Ychydig iawn o ddisgresiwn sydd gan y Cyngor o ran yr hysbysiadau hyn ar wahân i sicrhau nad eir y tu hwnt i'r terfyn statudol o 8 diwrnod mewn blwyddyn galendr. Serch hynny, bydd y Cyngor yn ystyried y diffiniad o 'drac' ac a ganiateir i'r ymgeisydd ddefnyddio'r hysbysiad ei hun.

#### **4. Loteriau Cymdeithasau Bach**

Mae Deddf Gamblo 2005 yn nodi diffiniad o loteri, y manylir arno isod, ac yn darparu bod hyrwyddo neu hwyluso loteri yn anghyfreithlon oni bai ei fod yn perthyn i un o ddau gategori o loteri a ganiateir, sef:

- loteriau trwyddedig – loteriau cymdeithas fawr a loteriau sy'n cael eu rhedeg er budd awdurdodau lleol sy'n cael eu rheoleiddio gan y Comisiwn ac sydd angen trwyddedau gweithredu arnynt yw'r rhain
- loteriau wedi'u heithrio – mae pedwar math o loteri wedi'i eithrio a ganiateir yn benodol o dan Atodlen 11 y Ddeddf, gan gynnwys y loteri cymdeithasau bach.

Mae loteri yn unrhyw drefniant sy'n bodloni'r holl feini prawf sydd wedi'u cynnwys yn y disgrifiad statudol o naill ai loteri syml neu loteri gymhleth, yn unol ag adran 14 o'r Ddeddf.

'Cymdeithas' yw'r gymdeithas, neu unrhyw gangen ar wahân o gymdeithas o'r fath, y mae loteri i'w hyrwyddo ar ei rhan, ac sydd wedi'i sefydlu fel sefydliad anfasnachol. Mae adran 19 o'r Ddeddf yn diffinio cymdeithas fel cymdeithas os caiff ei sefydlu a'i rhedeg:

- at ddibenion elusennol, fel y'u diffinnir yn adran 2 o Ddeddf Elusennau 2006
- at ddiben galluogi cyfranogiad mewn chwaraeon, athletau neu weithgaredd diwylliannol neu eu cefnogi
- at unrhyw ddiben anfasnachol arall ac eithrio er budd preifat

Rhaid i'r gymdeithas fod wedi'i sefydlu at un o'r dibenion a ganiateir fel y nodir yn adran 19 o'r Ddeddf, a bod yn rhaid i enillion unrhyw loteri gael eu neilltuo i'r dibenion hynny. Ni chaniateir sefydlu cymdeithas sydd â'r unig ddiben o hwyluso loteriau.

Mae gan awdurdodau lleol yr hawl i weithredu eu loteriau eu hunain, ond dim ond os ydynt wedi'u trwyddedu gan y Comisiwn Gamblo y gallant wneud hynny.

Rhaid i awdurdodau lleol ymrwymo o leiaf 20% o'r elw o loteriau o'r fath at ddiben y mae ganddynt bŵer i fynd i wariant ar ei gyfer, a rhaid iddynt hefyd gadw at ddarpariaethau perthnasol eraill y Ddeddf. Efallai y bydd angen iddynt hefyd feddu ar drwydded gweithredu gamblo o bell, os ydynt yn dymuno gwerthu tocynnau loteri trwy ddulliau electronig neu ddulliau technolegol eraill o bell megis dros y ffôn, e-bost neu dros y rhyngwyd.

Rhaid i geisiadau am gofrestrïadau loteri cymdeithasau bach fod ar y ffurf a ragnodir gan yr Ysgrifennydd Gwladol a rhaid cynnwys ffi gofrestru a chopi o'r telerau ac amodau a'r cyfansoddiad i brofi eu bod yn gymdeithas anfasnachol. Mae paragraffau 47 a 48 o Atodlen 11 i'r Ddeddf yn nodi'r seiliau i awdurdodau trwyddedu wrthod cais i gofrestru loteri cymdeithasau bach. Mae paragraff 50 yn caniatáu i awdurdod lleol ddirymu cofrestrïad loteri cymdeithasau bach sy'n bodoli eisoes mewn achosion pan fo'n meddwl y byddai'n orfodol neu'n cael caniatâd i wrthod cais am gofrestrïad pe bai'n cael ei wneud o'r newydd.

Bydd y Cyngor yn mabwysïadu dull seiliedig ar risg tuag at ei gyfrifoldebau gorfodi ar gyfer loteriau cymdeithasau bach. Mae'r Cyngor o'r farn y gallai'r rhestr ganlynol, er nad yw'n gyfyngedig, effeithio ar statws risg y gweithredwr:

- cyflwyno ffurflenni hwyr (rhaid cyflwyno ffurflenni ddim hwyrach na thri mis ar ôl y dyddiad y cynhaliwyd y raffl loteri)
- cyflwyno datganiadau anghyflawn neu anghywir
- torri'r terfynau ar gyfer loteriau cymdeithasau bach
- Collfarn(au) am droseddau perthnasol fel y manylir yn Atodlen 7 i Ddeddf Gamblo 2005

Caniateir gamblo anfasnachol os yw'n digwydd mewn digwyddiad anfasnachol, naill ai fel gweithgaredd achlysurol neu brif weithgaredd yn y digwyddiad. Mae digwyddiadau'n anfasnachol os nad oes unrhyw ran o'r enillion ar gyfer elw neu er budd preifat. Gall elw digwyddiadau o'r fath fod o fudd i un neu fwy o unigolion os yw'r gweithgaredd yn cael ei drefnu:

- gan, neu ar ran, elusen neu at ddibenion elusennol
- galluogi cymryd rhan mewn, neu gefnogi, gweithgareddau chwaraeon, athletaidd neu ddiwylliannol.

Dylai elusennau a grwpiau cymunedol gysylltu â'r Cyngor trwy e-bost i [licensing@torfaen.gov.uk](mailto:licensing@torfaen.gov.uk) neu drwy lythyr yn Trwyddedu, Y Ganolfan Ddinesig, Pont-y-pŵl, NP4 6YB i gofrestru'r loteri ac i ddarparu prawf bod y casgliad at ddibenion elusennol, i gefnogi chwaraeon, gweithgareddau athletaidd neu ddiwylliannol. Mae'r Comisiwn Gamblo yn darparu canllawiau ar y defnydd a'r mathau o loteriau a gellir eu gweld yma: [Guidance on the usage and types of lotteries](#)

## 5. Gwneud Penderfyniadau

### 5.1 Gweinyddu, Ymarfer a Dirprwyo Swyddogaethau

Gall pwerau a dyletswyddau'r Cyngor o dan y Ddeddf gael eu cyflawni gan y Pwyllgor Trwyddedu, gan Is-bwyllgor neu gan un neu fwy o swyddogion yn gweithredu o dan awdurdod dirprwyedig.

Ystyrir y bydd llawer o'r swyddogaethau yn rhai gweinyddol eu natur yn bennaf heb unrhyw feysydd dadleuol canfyddedig. Er budd effeithlonrwydd a chost-effeithiolrwydd, swyddogion fydd yn cyflawni'r rhain yn bennaf.

Mae'r atodlen ganlynol yn nodi'r dirprwyo swyddogaethau a phenderfyniadau a argymhellir drwy ganllawiau. Gall y Cyngor, serch hynny, gyfeirio unrhyw fater at y Pwyllgor neu'r Is-bwyllgor Trwyddedu.

Mae'r rhestr o ddirprwyo swyddogaethau trwyddedu ynghlwm yn Atodiad D.

### 5.2 Trefn Apeliadau

Mae hawliau i apelio ar gyfer partïon sydd wedi'u tramgwyddo gan benderfyniadau'r Cyngor wedi'u nodi yn Adrannau 206 i 209 o Ddeddf 2005. Rhaid cyflwyno apeliadau i Lys Ynadon yr ardal y mae'r awdurdod trwyddedu, sydd wedi ystyried y cais, wedi'i leoli ynddi.

Mae'n rhaid i apêl gael ei chychwyn drwy roi hysbysiad o'r apêl gan yr apelydd i; Clerc yr Ynadon, Llys Ynadon Gwent, Y Llysoedd Barn, Heol Faulkner, Casnewydd, NP20 4PR, o fewn cyfnod o 21 diwrnod, gan ddechrau gyda'r diwrnod yr hysbyswyd yr apelydd gan y Cyngor o'r penderfyniad yr apelir yn ei erbyn.

Wrth benderfynu ar apêl, gall y Llys:

- Gwrthod yr apêl
- Amnewid y penderfyniad yr apelir yn ei erbyn ag unrhyw benderfyniad arall y gallai'r awdurdod trwyddedu fod wedi'i wneud
- Cyfeirio'r achos i'r awdurdod trwyddedu i waredu'r apêl yn unol â chyfarwyddyd y Llys
- Gwneud gorchymyn am gostau

### **5.3 Rhoi Rhesymau dros Benderfyniadau**

Wrth ragweld apeliadau o'r fath, bydd y Cyngor yn rhoi rhesymau cynhwysfawr dros ei benderfyniadau. Bydd y Cyngor yn rhoi sylw i'r graddau y mae penderfyniadau wedi'u gwneud mewn perthynas ag unrhyw godau ymarfer a chanllawiau perthnasol a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Gamblo, sy'n rhesymol gyson â'r amcanion trwyddedu ac yn unol â'r Datganiad Polisi hwn.

### **5.4 Gweithredu Penderfyniad y Llys Ynadon**

Cyn gynted ag y bydd yr holl bartïon wedi cael gwybod am benderfyniad y Llys Ynadon, ni fydd y Cyngor yn oedi ei weithrediad a chymerir y camau angenrheidiol ar unwaith oni bai y bydd llys uwch yn gorchymyn i atal gweithredu o'r fath (er enghraifft, o ganlyniad i adolygiad barnwrol parhaus). Mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer dim apêl arall yn erbyn dyfarniad y Llys Ynadon.

### **5.5 Cwynion yn erbyn Mangreoedd Trwyddedig**

Bydd y Cyngor yn ymchwilio i gwynion yn erbyn eiddo trwyddedig mewn perthynas â materion sy'n ymwneud â'r amcanion trwyddedu y mae'n gyfrifol amdanynt. Yn y lle cyntaf, anogir achwynwyr i godi'r gŵyn yn uniongyrchol gyda'r trwyddedai neu'r busnes dan sylw i geisio datrysiaid lleol.

Lle bo parti â diddordeb naill ai wedi gwneud sylw dilys am eiddo trwyddedig neu gais dilys i adolygu trwydded, gall y Cyngor drefnu cyfarfod cymodi yn y lle cyntaf i fynd i'r afael â'r materion sy'n peri pryder a'u hegluro.

Ni fydd y broses hon yn diystyru hawl unrhyw barti a chanddynt fuddiant i ofyn i'r Is-bwyllgor Trwyddedu a Gamblo ystyried eu gwrthwynebiadau dilys, nac i unrhyw ddeiliad trwydded wrthod cymryd rhan mewn cyfarfod cymodi.

Rhoddir ystyriaeth ddyledus i'r holl sylwadau perthnasol oni bai eu bod yn cyd-fynd â'r eithriadau yn 5.6 isod.

### **5.6 Adolygiadau**

Gall Partïon a chanddynt Fuddiant neu Awdurdodau Cyfrifol wneud ceisiadau am adolygiad. Fodd bynnag, y Cyngor sydd i benderfynu a yw'r adolygiad i'w gynnal yn seiliedig ar unrhyw godau ymarfer a chanllawiau perthnasol a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Gamblo, sy'n rhesymol gyson â'r amcanion trwyddedu ac yn unol â'r Datganiad Polisi hwn.

Bydd y cais am adolygiad hefyd yn amodol ar ystyriaeth gan y Cyngor p'un a yw'n wacsaw neu'n flinderus, neu os na fydd yn achosi i'r Cyngor hwn addasu/dirymu/atal y drwydded, neu a yw'n sylweddol yr un fath â sylwadau blaenorol neu geisiadau am adolygiad.

Gall y Cyngor hefyd gychwyn adolygiad o drwydded mangre benodol, neu ddsbarth arbennig o drwydded mangre ar sail unrhyw reswm, y mae'n meddwl sy'n briodol.

Unwaith y bydd cais dilys am adolygiad wedi'i dderbyn gan y Cyngor, gall awdurdodau cyfrifol a phartïon a chanddynt fuddiant gyflwyno sylwadau yn ystod cyfnod o 28 diwrnod. Mae'r cyfnod hwn yn dechrau 7 diwrnod ar ôl i'r cais gael ei dderbyn gan y Cyngor, a fydd yn cyhoeddi hysbysiad o'r cais o fewn 7 diwrnod o'i dderbyn.

Rhaid i'r Cyngor gynnal yr adolygiad cyn gynted â phosibl ar ôl i'r cyfnod o 28 diwrnod ar gyfer cyflwyno sylwadau ddod i ben.

Pwrpas yr adolygiad fydd penderfynu a ddylai'r Cyngor gymryd unrhyw gamau gweithredu mewn perthynas â'r drwydded. Os gellir cyfiawnhau camau gweithredu, yr opsiynau sydd ar gael i'r Cyngor yw:

- ychwanegu, dileu neu ddiwygio amod trwydded a osodwyd gan y Cyngor
- eithrio amod rhagosodedig a osodwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol (e.e. oriau agor) neu ddileu neu ddiwygio gwaharddiad o'r fath
- atal y drwydded mangre am gyfnod nad yw'n hwy na thri mis; a
- dirymu'r drwydded mangre

Wrth benderfynu pa gamau gweithredu, os o gwbl, y dylid eu cymryd yn dilyn adolygiad, rhaid i'r Cyngor ystyried yr egwyddorion a nodir yn Adran 153 o'r Ddeddf, yn ogystal ag unrhyw sylwadau perthnasol.

Yn benodol, gall y Cyngor hefyd gychwyn adolygiad o drwydded mangre ar y sail nad yw deiliad trwydded mangre wedi darparu cyfleusterau ar gyfer gamblo yn yr eiddo. Mae hyn er mwyn atal pobl rhag gwneud cais am drwyddedau mewn modd hapfasnachol heb fwriadu eu defnyddio.

Unwaith y bydd yr adolygiad wedi'i gwblhau, rhaid i'r Cyngor, cyn gynted â phosibl, hysbysu ei benderfyniad i'r canlynol:

- trwyddedai
- y ceisydd am adolygiad (os oes un)
- y Comisiwn
- unrhyw berson a gyflwynodd sylwadau
- prif swyddog yr heddlu neu brif gwnstabl; a
- Comisiynwyr Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi

## **6. Amodau Trwyddedu a Chodau Ymarfer (LCCP)**

Mae Deddf Gamblo 2005 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn Gamblo gyhoeddi un neu fwy o godau ymarfer ynghylch y modd y darperir cyfleusterau ar gyfer gamblo. Gall y codau gael eu cyfeirio at ddeiliaid trwyddedau gweithredu neu bersonol, neu unrhyw berson arall sy'n ymwneud â darparu cyfleusterau ar gyfer gamblo.

Mae'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau trwyddedu ystyried, wrth arfer eu swyddogaethau, unrhyw god ymarfer perthnasol a gyhoeddwyd gan y Comisiwn o dan adran 24, yn yr achos hwn:

- [Licence Conditions and Codes of Practice \(gamblingcommission.gov.uk\)](http://gamblingcommission.gov.uk) y Comisiwn sy'n berthnasol i ddeiliaid trwyddedau gweithredu neu drwyddedau personol y Comisiwn Gamblo;
- Codau eraill - dyma god ymarfer y Comisiwn ar gyfer gamblo cyfle cyfartal a'i god ymarfer ar gyfer peiriannau gamblo mewn clybiau ac eiddo sydd â thrwydded alcohol.

### **Asesiadau Risg ~ Gweithredwyr Gamblo yn y Fangle**

Mae'r LCCP yn ei gwneud yn ofynnol i bob trwyddedai presennol sy'n darparu gamblo yn eu heiddo asesu'r risgiau lleol i'r amcanion trwyddedu a bod â pholisïau, gweithdrefnau a mesurau rheoli ar waith i leihau'r risgiau hynny. Rhaid i drwyddedai ystyried unrhyw faterion perthnasol a nodir yn Natganiad Polisi (gamblo) yr awdurdod trwyddedu wrth wneud eu hasesiadau risg.

Dylai asesiad risg lleol hefyd gael ei gynnal neu ei ddiweddarau gan drwyddedai, wrth wneud cais am:

- Trwydded Mangre newydd
- Wrth wneud cais am amrywiad i drwydded mangre bresennol
- Cymryd i ystyriaeth unrhyw newidiadau sylweddol lleol yn yr ardal leol
- Pan fo newidiadau sylweddol o fewn eu heiddo a allai effeithio ar yr asesiad risg lleol presennol

Mae'n ofynnol i weithredwyr sicrhau bod yr asesiad risg ar gael i awdurdodau trwyddedu pan gyflwynir cais a dylid cadw copi yn yr eiddo neu fel arall ar gais, a bydd hyn yn rhan o drefn archwilio neu ymchwilio i gwynion y Cyngor.

Mae'r Cod yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor nodi materion y mae'n disgwyl i'r gweithredwr eu hystyried yn yr asesiad risg yn ei ddatganiad polisi ac mae'r Cyngor hwn yn disgwyl i'r materion a ganlyn gael eu hystyried gan weithredwyr wrth wneud eu hasesiad risg.

- Gwybodaeth a gedwir gan y trwyddedai ynghylch hunan-waharddiadau ac achosion o gamblo dan oed
- Trefniant ar gyfer cyfnewid gwybodaeth yn lleol ynghylch hunan-waharddiadau a thueddiadau gamblo
- Problemau hysbys yn yr ardal fel yfwyr stryd, pobl ifanc yn ymgasglu, gweithgareddau gwerthu cyffuriau, ac ati;
- Sefydliadau, lleoedd neu ardaloedd lle dylid disgwyl presenoldeb plant a phobl ifanc megis cartrefi plant, cyfleusterau gofal, ysgolion, clybiau ieuencid, parciau, meysydd chwarae a lleoliadau adloniant megis cynghreiriaid bowlio, sinemâu ac ati ac unrhyw ardaloedd neu fangreoedd lle mae plant yn gallu ymgynnull megis arosfannau bysiau
- Digwyddiadau a gofnodwyd o ymgais i gamblo dan oed

- Agosrwydd eiddo y gall pobl agored i niwed eu mynychu megis ysbytai, cartrefi gofal preswyl, cyfleusterau meddygol, meddygfeydd, swyddfeydd tai cyngor, clinigau dibyniaeth neu ganolfannau cymorth, mannau lle gall pobl sy'n ddibynol ar alcohol neu gyffuriau ymgynnull, cyfleusterau cymorth gamblo a chyfleusterau iechyd meddwl ac ati
- Lleoliad eiddo trwyddedig i gyflenwi alcohol a busnesau eraill yn yr ardal
- Cyfleusterau trafndiaeth a pharcio (arosfannau bysiau, safleoedd tacsis, gorsafoedd trenau ac ati)
- Mathau a chyfraddau o droseddau yn yr ardal a allai effeithio ar yr eiddo

Nid yw'r rhestr hon yn hollgynhwysfawr a rhaid ystyried ffactorau eraill nad ydynt yn y rhestr hon a nodir.

**Adeiladau Traciau Betio** - Mae'r Comisiwn Gamblo yn nodi, o fewn ei god LCCP, ei bod yn ofynnol i Weithredwyr wneud asesiad risg. Fodd bynnag, nid yw'n ofynnol i Fangreodded Traciau Betio geisio Trwydded Gweithredwr gyda'r Comisiwn Gamblo ac, fel y cyfryw, nid yw'n ofynnol iddynt gynnal asesiad risg. Fodd bynnag, er budd amcanion Deddf Gamblo 2005, sef i) atal gamblo rhag bod yn ffynhonnell trosedd neu anhrefn, bod yn gysylltiedig â throsedd neu anhrefn neu gael ei ddefnyddio i gefnogi trosedd; ii) sicrhau bod gamblo yn cael ei gynnal mewn ffordd deg ac agored; iii) amddiffyn plant a phobl agored i niwed eraill rhag cael eu niweidio neu eu hecsbloetio gan y gamblo, byddai'r Cyngor hwn yn disgwyl i Fangre Trac Betio gynnal asesiad risg ar gyfer eu mangre.

### **Newidiadau sylweddol i'r fangre**

O bryd i'w gilydd bydd gweithredwyr yn adnewyddu cynllun ac addurniad y fangre, sy'n annhebygol o ysgogi adolygiad o'r asesiad risg ar gyfer y fangre honno. Fodd bynnag, pan fo newid sylweddol yn y fangre a allai effeithio ar liniaru risgiau lleol, yna rhaid i weithredwr adolygu ei asesiad risg ac, os oes angen, ei ddiweddarau, gan ystyried y newid a sut y gallai effeithio ar un neu fwy o'r amcanion trwyddedu.

Disgwylir y bydd gweithredwyr gamblo yn cynnal y broses asesu risg hon fel mater o drefn ar gyfer unrhyw waith adnewyddu eiddo, newidiadau i gynllun neu fesurau rheoli mewnol. Os bydd unrhyw newidiadau yn gofyn am adolygiad o'r asesiadau risg ar gyfer y fangre honno, dylai gweithredwyr gamblo sicrhau bod ganddynt system ar waith i gofnodi a gweithredu unrhyw fesurau a nodir yn yr adolygiad hwnnw.

### **Amrywio'r drwydded mangre**

Dim ond y rhai y mae'n ofynnol eu gwneud o dan adran 187 o'r Ddeddf yw amrywiadau i drwyddedau mangre ac ni fyddant yn cynnwys newidiadau mewn amgylchiadau megis newid enw mangre neu newid cyfeiriad trwyddedai, ac ati.

Mae darpariaeth cod cyfrifoldeb cymdeithasol LCCP y Comisiwn 10.1.1 yn ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr gamblo gynnal adolygiad o'r asesiad risg lleol a'i ddiweddarau os oes angen wrth baratoi cais i amrywio'r drwydded mangre. Gall gweithredwyr sy'n cyflwyno cais amrywio i'r Cyngor ystyried cyflwyno copi

o'r asesiad risg lleol diwygiedig wrth gyflwyno'r cais. Bydd hyn wedyn yn negyddu'r angen i'r Cyngor ofyn am weld copi o'r asesiad risg hwn a gallai o bosibl leihau'r tebygolrwydd y bydd sylw'n cael ei wneud i'r cais.

### **Adolygiad rheolaidd o asesiad risg**

Fel mater o arfer gorau mae'r Cyngor yn argymhell bod gweithredwyr yn sefydlu trefn adolygu reolaidd mewn perthynas â'u hasesiadau risg lleol. Gellir cynnal y rhaglen adolygu hon ochr yn ochr ag adolygiadau eraill ar asesiadau risg lechyd a Diogelwch ar gyfer y fangre. Byddai'r rhaglen adolygu hon yn sicrhau, p'un a yw unrhyw un o'r digwyddiadau sbarduno a nodir uchod wedi digwydd ai peidio, bod yr asesiadau risg hyn yn cael eu hystyried yn rheolaidd a'u diweddarau os oes angen.

Mater i'r gweithredwr gamblo fydd pa mor aml y cynhelir yr adolygiadau hyn ond argymhellir na ddylai mwy na thair blynedd fynd heibio cyn adolygu'r asesiadau hyn. Mae'n bosibl y bydd gweithredwyr am gysoni eu hadolygiadau o'r asesiadau risg lleol â chyhoeddiad y Cyngor o'r Datganiad o Egwyddorion Trwyddedu ar gyfer Gamblo. Byddai hyn yn galluogi gweithredwyr gamblo i ystyried y Proffil Ardal Leol, sydd wedi'i gyhoeddi yn Natganiad y Cyngor o Egwyddorion Trwyddedu ar gyfer Gamblo.



## 7. Gwybodaeth Bellach

Gellir cael rhagor o wybodaeth am DDeddf Gamblo 2005, y Datganiad Polisi Trwyddedu hwn neu'r broses ymgeisio oddi wrth:

### **Tîm Trwyddedu CBS Torfaen**

Yr Economi a'r Amgylchedd  
Canolfan Ddinesig  
Pont-y-pŵl  
Tel: 01633 647286  
E-bost: [licensing@torfaen.gov.uk](mailto:licensing@torfaen.gov.uk)  
Gwen: [www.torfaen.gov.uk/licensing](http://www.torfaen.gov.uk/licensing)

### **Y Comisiwn Gamblo**

Victoria Square House  
Birmingham  
B2 4BP  
Teleffon: 0121 230 6666  
Gwefan: [www.gamblingcommission.gov.uk](http://www.gamblingcommission.gov.uk)

### **The Department for Digital, Culture, Media & Sport**

100 Parliament Street  
London  
SW1A 2BQ  
Teleffon: 020 7211 2210  
Gwefan: [www.culture.gov.uk](http://www.culture.gov.uk)

### **Prif Swyddog yr Heddlu**

d/o Adran Drwyddedu  
Gorsaf Heddlu Glynebwy  
28 Stryd Bethcar  
Glynebwy  
NP23 6UY

### **Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol**

d/o Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen  
Canolfan Ddinesig  
Pont-y-pŵl  
NP4 6YB  
[SS\\_CSCP@torfaen.gov.uk](mailto:SS_CSCP@torfaen.gov.uk)

## **Atodiad A Mynediad i Fangreuedd**

### **Casinos**

- Rhaid i brif fynedfa'r eiddo fod o stryd
- Ni ddylai unrhyw fynedfa i gasino ddod o eiddo a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf gan blant a/neu bobl ifanc
- Ni ddylai unrhyw gwsmer allu mynd i mewn i gasino yn uniongyrchol o unrhyw eiddo arall, sy'n dal trwydded mangre gamblo

### **Canolfan Gamblo i Oedolion**

- Ni ddylai unrhyw gwsmer allu cael mynediad i'r eiddo yn uniongyrchol o unrhyw fangre gamblo trwyddedig arall.

### **Siopau Betio**

- Rhaid i'r mynediad fod o stryd neu o eiddo arall sydd â thrwydded Mangre Betio
- Dim mynediad uniongyrchol o siop fetio i eiddo arall a ddefnyddir ar gyfer manwerthu nwyddau neu wasanaethau. Mewn gwirionedd ni all fod mynedfa i siop fetio o siop o unrhyw fath ac ni allech gael siop fetio yng nghefn caffi - byddai'n rhaid trwyddedu'r ardal gyfan.

### **Traciau**

Ni ddylai unrhyw gwsmer allu cael mynediad i'r fangre yn uniongyrchol o:

- casino
- canolfan gamblo i oedolion

### **Mangreuedd Bingo**

Ni ddylai unrhyw gwsmer allu cael mynediad i'r fangre yn uniongyrchol o:

- casino
- canolfan gamblo i oedolion
- mangre betio, ac eithrio trac

### **Canolfan Adloniant i Deuluoedd**

Ni ddylai unrhyw gwsmer allu cael mynediad i'r fangre yn uniongyrchol o unrhyw un o'r canlynol:

- casino
- canolfan gamblo i oedolion
- mangre betio, ac eithrio trac

Mae Rhan 7 o Ganllawiau'r Comisiwn Gamblo i Awdurdodau Trwyddedu yn cynnwys canllawiau pellach ar y mater hwn, y bydd yr awdurdod hwn hefyd yn eu hystyried wrth wneud penderfyniadau.

## **ATODIAD B – Cronfa Amodau Enghreifftiol Gorfodol, Rhagosodedig a Chyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen ar gyfer Trwyddedau Mangreoedd ar gyfer Gamblo**

### **1. Cyflwyniad**

Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yw'r Awdurdod Trwyddedu o dan Ddeddf Gamblo 2005 (y Ddeddf). Yr Awdurdod Trwyddedu sy'n gyfrifol am ystyried a phenderfynu ar geisiadau am drwyddedau mangreoedd sy'n cynnig cyfleusterau gamblo yn Nhorfaen. Mae gan yr Awdurdod Trwyddedu hefyd y rôl o sicrhau cydymffurfedd â thelerau ac amodau'r trwyddedau.

Mae'r Ddeddf yn cynnwys tri amcan trwyddedu sy'n arwain y ffordd y mae'r Awdurdod Trwyddedu yn cyflawni ei swyddogaethau a'r ffordd y mae gweithredwyr gamblo yn cyflawni eu gweithgareddau. Y rhain yw:

- atal gamblo rhag bod yn ffynhonnell trosedd neu anhrefn, bod yn gysylltiedig â throsedd neu anhrefn, neu gael ei ddefnyddio i gefnogi trosedd
- sicrhau bod gamblo yn cael ei gynnal mewn ffordd deg ac agored
- amddiffyn plant a phobl eraill agored i niwed rhag cael eu niweidio neu eu hecsbloetio gan y gamblo

Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd gyfreithiol ar yr Awdurdod Trwyddedu i anelu at ganiatáu gamblo i'r graddau y mae'n credu ei fod yn rhesymol gyson â'r amcanion trwyddedu. Effaith y ddyletswydd hon yw bod yn rhaid i'r Awdurdod Trwyddedu ymdrin â'i swyddogaethau mewn ffordd sy'n ceisio rheoleiddio gamblo drwy ddefnyddio ei bwerau, er enghraifft i osod amodau ar drwyddedau, i gymedroli ei effaith ar yr amcanion trwyddedu yn hytrach na thrwy ddechrau ei atal yn gyfan gwbl.

Mae Rheoliadau Deddf Gamblo 2005 (Amodau Gorfodol a Diofyn) (Cymru a Lloegr) 2007 yn gosod amodau ar bob categori o drwydded mangre gamblo o dan y Ddeddf. Er hwylustod cyfeirio ac i ddarparu dogfen gryno sy'n cynnwys yr holl amodau perthnasol, mae'r Awdurdod Trwyddedu wedi cynnwys amodau gorfodol a rhagosodedig.

Mae'r Awdurdod Trwyddedu hefyd wedi datblygu cronfa o amodau enghreifftiol i gynorthwyo gweithredwyr gamblo, awdurdodau cyfrifol a phartion a chanddynt fuddiant wrth ystyried amodau i ymdrin â materion a phryderon penodol. Bydd yr amodau hyn hefyd yn annog dull cyson o ddrafftio a gosod amodau ar drwyddedau mangre.

Bydd gweithredwyr gamblo yn nodi mesurau sy'n lliniaru'r risg o niweidio'r amcanion trwyddedu yn eu hasesiad risg lleol ar gyfer pob mangre benodol. Bydd yr amodau enghreifftiol yn cynorthwyo darpar ddeiliaid trwydded a deiliaid

trwydded presennol i nodi a dewis amodau penodol a fyddai'n cadarnhau'r mesurau arfaethedig hyn o fewn y fframwaith rheoleiddio.

Unwaith y bydd cais wedi'i wneud, anogir awdurdodau cyfrifol a phartïon a chanddynt fuddiant i ymgysylltu â'r ymgeisydd os ydynt yn ystyried cyflwyno sylwadau i'w cais. Bydd hyn yn galluogi trafodaethau am eu pryderon a'r gallu i gytuno ar amodau penodol i fynd i'r afael â hwy.

Nid yw'r amodau enghreifftiol yn y ddogfen hon yn rhestr gyfyngedig na chynhwysfawr o amodau y gellir eu cynnwys ar drwydded mangre. Nid yw'n cyfyngu ar unrhyw ymgeisydd, awdurdod cyfrifol, na phartïon eraill â diddordeb rhag cynnig unrhyw amodau amgen, ac ni fyddai ychwaith yn cyfyngu ar Is-bwyllgor Trwyddedu rhag gosod unrhyw amod rhesymol ar ganiatáu trwydded y mae'n ei ystyried yn briodol er mwyn ceisio caniatáu gamblo o dan adran 153 o'r Ddeddf.

Dyma'r rhifyn cyntaf o'r Amodau Model Gorfodol, Diofyn a Thorfaen ar gyfer Trwyddedau Mangre Gamblo yr ydym wedi'u cynhyrchu. Bydd y ddogfen hon yn cael ei diweddarau a'i chyhoeddi ar wefan y Cyngor yn [www.torfaen.gov.uk](http://www.torfaen.gov.uk)

## 2. Amodau Gorfodol

Amodau gorfodol yw amodau a bennir yn Rheoliadau Deddf Gamblo 2005 (Amodau Gorfodol a Diofyn) (Cymru a Lloegr) 2007 (Rheoliadau 2007). Rhestrir yr amodau gorfodol ar gyfer pob categori o drwyddedau mangre isod fel amodau gyda chyfeirnod amod Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen ei hun. Mae'r rheoliad, atodlen, rhan a pharagraff penodol lle mae'r amodau hynny wedi'u lleoli o fewn Rheoliadau 2007, ar gael i'r dde o bob un o'r amodau gorfodol.

Mae'r amodau gorfodol hyn yn berthnasol i'r categori perthnasol o drwydded mangre ac ni ellir eu dileu na'u hamrywio mewn unrhyw ffordd.

Lle mae amod gorfodol, fel y nodir yn Rheoliadau 2007 yn cyfeirio at baragraff sy'n amod ar wahân o fewn y rhan honno o'r atodlen, rydym wedi disodli'r rhif hwnnw â chyfeirnod amod perthnasol Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen fel ei bod yn amlwg at ba amod y cyfeirir.

## 3. Casinos wedi eu Trosi

Bydd y crynodeb o delerau ac amodau'r drwydded mangre a roddwyd o dan adran 164(1)(c) o Ddeddf 2005 yn cael ei arddangos mewn man amlwg o fewn y fangre.	Rheoliad 3(2)
Rhaid cynnal gosodiad y fangre yn unol â'r cynllun.	Rheoliad 3(3)
Ni chaiff y fangre ei defnyddio ar gyfer – a) gwerthu tocynnau mewn loteri breifat neu loteri cwsmeriaid, neu	Rheoliad 3(4)

b) gwerthu tocynnau mewn unrhyw loteri arall y gwaherddir fel arall gwerthu tocynnau yn y fangre mewn perthynas â hi.	
Bydd y brif fynedfa i'r eiddo o stryd.	Rheoliad 4, Atodlen 1, Rhan 1, Paragraff 1(1)
Ni chaniateir i unrhyw fynedfa i'r eiddo fod o eiddo a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf gan blant, pobl ifanc, neu'r ddau.	Rheoliad 4, Atodlen 1, Rhan 1, Paragraff 1(2)
Ni chaiff unrhyw gwsmer fynd i mewn i'r fangre yn uniongyrchol o unrhyw fangre arall y mae trwydded a ddyroddir o dan Ran 8 o'r Ddeddf, neu hawlen a ddyroddir o dan Atodlen 10, 12 neu 13 i'r Ddeddf, yn effeithiol mewn perthynas â hi.	Rheoliad 4, Atodlen 1, Rhan 1, Paragraff 1(3)
